# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN, 9 MEHEFIN 2014**<br>**10.00 o'r gloch** | | **MONDAY, 9 JUNE 2014**<br>**10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR**<br>**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**<br>**LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER**<br>**COUNCIL OFFICES**<br>**LLANGEFNI** |
| Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd | **Mr Huw Jones**<br>**01248 752 515** | Interim Head of Democratic Services |

**Annibynnol / Independent**
R Dew, K P Hughes, H E Jones a Ieuan Williams (Cadeirydd/Chair)

**Plaid Lafur/Labour Party**
J A Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alwyn Rowlands

**Heb Ymuno / Unaffiliated**

A M Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / Welsh Liberal Democrats

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Mai 2014.

**4** **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **ADRODDIAD MONITRO'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG** (Tudalennau 19 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **POLISI AR Y CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH CYNGOR I BENSIYNWYR 2014/15** (Tudalennau 51 - 54)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**7** **CANLYNIADAU CYLLIDEB GYFALAF 2013/14** (Tudalennau 55 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**8** **CYLLIDEB REFENIW 2013/14 – ALLDRO DROS DRO** (Tudalennau 65 - 70)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**9** **DARPARU GWASANAETH CYMUNED / GOFAL CARTREF** (Tudalennau 71 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cymunedol.

**10** **OPSIYNAU MEWN PERTHYNAS Â SICRHAU GWELLIANNAU I'R A5025 I HWYLUSO CYNIGION DATBLYGU PWER NIWCLEAR HORIZON** (Tudalennau 77 - 82)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **GOSTWNG YR OED MYNEDIAD I YSGOL LLANFAIRPWLL** (Tudalennau 83 - 86)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes.

**12** **CYNYDDU PRIS PRYDAU YSGOL** (Tudalennau 87 - 90)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

**13** **CAIS I DDELIO Â'R DIFFYG YNG NGHYLLIDEB YSGOLION** (Tudalennau 91 - 94)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 19 Mai 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd J Arwel Roberts (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones a Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai<br>Rheolwr Rhaglennu a Chynllunio Busnes (Eitem 6)<br>Rheolwr Rhaglennu Moderneiddio Ysgolion (Eitem 9)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr R G Parry, OBE (Eitem 9), R Llewelyn Jones (Eitem 10), Ann Griffith, John Griffith, Llinos M Huws, Victor Hughes, R Meirion Jones, Nicola Roberts, Section 151 Officer. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim. |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO.**

Gwnaeth y Cynghorydd J Arwel Roberts ddatganiad personol nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 9 ar y rhaglen; arhosodd yn y cyfarfod a chymerodd ran yn y drafodaeth ar yr eitem.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd i'w cadarnhau,gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2014.

**PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2014 fel rhai cywir.**

## 4 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd - Adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Rhaglen Waith newydd y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o Fehefin 2014 i Ionawr 2015.

Cafwyd adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ar y newidiadau ychwanegol yr oedd yn ceisio cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar eu cyfer:

- Ailraglennu Eitem 5 (Newidiadau Cyfansoddiadol – Mynychu o Bell) i ddyddiad hwyrach fel y gellir sgriwtineiddio'r testun ymlaen llaw.
- Cynnwys tair eitem newydd ar gyfer cyfarfod 9 Mehefin o'r Adran Dysgu Gydol Oes sef gostwng oed mynediad yn Ysgol Llanfairpwll; Prydau Ysgolion, a'r Cynllun Strategol Amlinellol (CSA) mewn perthynas â'r Llannau.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Cynllunio a'r Amgylchedd iddo gael ar ddeall fod Eitem 12 (Siarter Cytundeb Perfformiad Cynllunio) a oedd i'w thrafod ym mis Mehefin wedi cael ei gohirio i fis Gorffennaf fel y gall y Tîm Datblygu Rhyng-adrannol ei ystyried.

**Penderfynwyd cadarnhau'r flaenraglen waith diweddaraf ar gyfer y cyfnod Mehefin 2014 - Ionawr 2015, yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5 CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL – CHWARTER 4, 2013/14

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol am Chwarter 4 2013/14 a oedd yn dangos y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â diwedd  Chwarter 4 o ran y dangosyddion allweddol ym meysydd Rheoli Pobl, Rheoli Perfformiad a Gwasanaeth y Cwsmer ac unrhyw welliannau ac/neu ddirywiad mewn perfformiad a'r rhesymau am hynny.

Nododd y Pwyllgor Gwaith bod yr adroddiad yn adlewyrchu gwelliant yn gyffredinol a bod y daith  o ran y dangosyddion yn mynd i'r cyfeiriad iawn.  Cymerwyd sylw arbennig o'r data yng nghyswllt absenoldeb salwch ac er fod cydnabyddiaeth fod y perfformiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch wedi gwella,  argymhellwyd bod gwaith pellach yn cael ei wneud yn arbennig o safbwynt sicrhau bod cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith yn cael eu cynnal fel mater o drefn.  Dywedodd yr Arweinydd wrth y Pwyllgor Gwaith bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini i ganolbwyntio ar fater absenoldeb salwch; gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am gael gwybod am unrhyw danberfformio a fydd yn parhau yn y maes hwn ac y bydd y Panel Sgriwtini yn ei nodi.

Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i fynd i'r afael â pherfformiad yng nghyswllt dangosydd SCA/0128b (y ganran o ofalwyr am oedolion gafodd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn) a oedd yn parhau i fod yn is na'r targed.

**Derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**6 CYTUNDEB CANLYNIADAU 2013-16**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes yn gofyn am gael cymeradwyo'r Cytundeb Canlyniad, 2013-16.

Cafwyd adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes yn dweud bod trafodaethau rhwng Swyddogion a Swyddogion Llywodraeth Cymru yn awr wedi dod i ben a bod 5 thema strategol a chanlyniadau o Raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu wedi cael eu dewis fel rhai y dylid canolbwyntio arnynt yn y Cytundeb Canlyniad oherwydd fod perthynas agos rhyngddynt a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol 2013-17; oherwydd eu bod yn darparu sail tystiolaeth gref a'u lefel debygol o lwyddiant .

**Derbyn a mabwysiadu'r Cytundeb Canlyniadau ar gyfer 2013-16.**

**7 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD – Y FLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ac yn dilyn hynny, gymeradwyaeth y Cyngor i ddiwygio'r Cyfansoddiad yng nghyswllt y Flaenraglen Waith er mwyn iddo adlewyrchu'r trefniadau gwell o safbwynt adrodd yn ôl a chyhoeddi'r Flaenraglen Waith.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir :**

- **Cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i ran 4.2.12 y Cyfansoddiad fel y manylir arnynt yn yr atodiad i'r adroddiad, a**

- **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiweddaru'r Cyfansoddiad ar y sail honno.**

**8 DYFODOL YR UNED CYNNAL ADEILADAU YN Y GWASANAETH TAI A'R GWASANAETH TRWSIO NEWYDD**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn manylu ar gynnig i drawsnewid a moderneiddio'r Gwasanaethau Tai TLlU mewnol gyda golwg ar sefydlu model gwasanaeth newydd gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth trwsio ardderchog yn dilyn gwerthusiad opsiynau cynhwysfawr o ddyfodol y gwasanaeth. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymarfer gwerthuso roedd y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ceisio cael cymeradwyaeth ar gyfer Opsiwn 2.1.2 (cadw'r gwasanaeth yn fewnol, ond uno'r timau cleient a chontractwr yn un gwasanaeth trwsio tra'n moderneiddio a thrawsnewid y gwasanaeth) fel yr opsiwn oedd yn cael ei argymell.

Rhoddodd y Cynghorydd H. Eifion Jones, Deilydd Portffolio Cyllid welliant i'r cynnig yn seiliedig ar fabwysiadu opsiwn 2.1.2 ond gydag amodau sef bod y cyfnod amser ar gyfer cwblhau'r prosiect o drawsnewid y gwasanaeth trwsio tai yn cael ei ostwng o 3 i 2 flynedd; bod elfennau o opsiynau 2.1.3, 2.1.5 a 2.1.8 yn cael eu hymgorffori o fewn yr opsiwn a ffefrir a bod adolygiad o gynnydd yn cael ei gynnal o fewn 4 mis gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. Cynigiodd yr Arweinydd

amodau ychwanegol gan nad yw'r ailstrwythuro'n ymestyn gweithlu'r Gwasanaeth Trwsio; bod nifer y contractwyr sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y gwasanaeth yn cael eu hadolygu gyda golwg ar leihau'r niferoedd a bod dangosyddion perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio Tai yn cael eu hymgorffori yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol i bwrpasau monitro a pherfformiad. Pwysleisiodd hefyd bod angen cynnal yr adolygiad o'r trefniadau caffael y mae'r adroddiad yn ei gynnig fel rhan o'r dull o sicrhau gwerth am arian, gydag arferion mwy llym yn cael eu sefydlu.

Rhoddodd yr Arweinydd adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar drafodaethau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y mater yn ei gyfarfod ar 12 Mai sef bod y Pwyllgor hwnnw wedi nodi nad oedd rhaid iddo benderfynu ar opsiwn penodol, a'i fod wedi ystyried rhinweddau opsiwn 2.1.3 a hefyd gyfuniad o opsiynau 2.1.2 a 2.1.5 a'i fod wedi argymell, oherwydd cymhlethdod y mater, ei fod yn cael ei gyfeirio i'r Cyngor llawn i'w drafod.

Cafwyd ymateb gan y Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai i'r newidiadau o safbwynt y Gwasanaeth Tai.

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar y gwelliant.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r opsiwn a argymhellir, sef cadw'r gwasanaeth yn fewnol ond cyfuno'r timau cleient a chontractwr i greu un gwasanaeth trwsio, tra'n moderneiddio a thrawsnewid y gwasanaeth gyda'r amodau isod:**

- **Y nod fyddai cynnal a chwblhau'r prosiect trawsnewid ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio cyn pen 2 flynedd;**

- **Bod yr opsiwn a argymhellir hefyd yn ymgorffori elfennau o'r isod os oes modd :**

  - **Opsiwn 2.1.3 - mewn perthynas â gwahanol strwythurau ar gyfer contractau.**
  - **Opsiwn 2.1.5 - allanoli rhannau o'r gwasanaethau.**
  - **Opsiwn 2.1.8 - model Gwasanaeth Diwastraff.**

- **Nad yw'r ailstrwythuro yn golygu ehangu'r gweithlu cyfredol yn y Gwasanaeth Trwsio**

- **Adolygu nifer y contractwyr a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Trwsio gyda golwg ar ei ostwng.**

- **Cynnal adolygiad o'r prosiect cyn pen 4 mis a chyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r Pwyllgor Gwaith.**

- **Ymgorffori dangosyddion perfformio ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio Tai o fewn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol.**

## 9 MODERNEIDDIO YSGOLION – CAERGYBI

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes mewn perthynas â'r broses o foderneiddio ysgolion yng Nghaergybi.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes faterion yn ymwneud â'r materion canlynol, yr oedd Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2013 wedi gofyn am fwy o wybodaeth yn eu cylch cyn dechrau'r broses ymgynghori ffurfiol ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer moderneiddio ysgolion yn ardal Caergybi –

Perchnogaeth tir safloedd y tair ysgol (Ysgol y Parc, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Parch. Thomas Ellis)
Fforddiadwyaeth
Rheoli traffig a materion diogelwch y ffyrdd
Statws yr ysgol newydd, a
Materion ynglŷn â'r gorchymyn cadwraeth ar safle hen ysgol Cybi yng Nghaergybi.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth.

**Penderfynwyd awdurdodi swyddogion o'r Adran Dysgu Gydol Oes i symud ymlaen i'r broses ymgynghori ffurfiol.**

## 10 YMGYNGHORI YNGHYLCH GARREGLWYD

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Rheolwr Trawsnewid Strategol gofal Cymdeithasol mewn perthynas â dyfodol Cartref Gofal Preswyl Garreglwyd.

Anerchodd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones y Pwyllgor Gwaith yn ei capasiti fel Pencampwr Pobl Hŷn y Cyngor a hefyd fel Aelod Lleol a gofynnodd am gael gwybodaeth ynglŷn â'r datblygiadau.

**Penderfynwyd cytuno i gyhoeddi rhybudd o fwriad y Cyngor i werthu Garreglwyd, gyda'r defnydd a ffafrir iddo gael ei redeg fel cyfleuster Dementia arbenigol neu fel darpariaeth gofal preswyl neu ofal nyrsio preifat, a chynnal ymgynghoriad ffurfiol ar hynny.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45 am

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **9 Mehefin 2014** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Gorffennaf 2014 - Chwefror 2015;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| - |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw. |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Gorffennaf 2014 – Chwefror 2015. |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Blaenraglenni gwaith blaenorol. |

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Gorffennaf 2014 – Chwefror 2015

Diweddarwyd: 30 Mai 2014

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion Portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Amlinellir blaenraglen waith ddrafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Gorffennaf 2014 - Chwefror 2015** ar y tudalennau dilynol.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Mae'n bosib y bydd rhai o'r eitemau a restrir yn y rhaglen waith yn cael eu dirprwyo i'w cymeradwyo gan ddeilyddion portffolio unigol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2014 – Chwefror 2015

Diweddarwyd: 30 Mai 2014

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 1 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones<br>Pennaeth Gwas. Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 2 | **Prosiect Gweithio'n Gallach**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth i'r achos busnes llawn. | Dirprwy Brif Weithredwr | Bethan Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | 1 Gorffennaf 2014 | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 3 | **Prosiect Rhagoriaeth Gofal Cwsmer**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth i'r achos busnes llawn. | Dirprwy Brif Weithredwr | Bethan Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | 1 Gorffennaf 2014 | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 4 | **Cyllideb 2015/16**<br><br>Categori: **Strategol** | Papur trafod cychwynnol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Clare Williams<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 1 Gorffennaf 2014 | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 5 | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad – Cylch Gorchwyl y Panel Apeliadau**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth. | Dirprwy Brif Weithredwr | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth -Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | | 14 Gorffennaf 2014 | I'w gadarnhau. |
| 6 | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad – Rheoliadau Absenoldeb Teuluol**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth. | Dirprwy Brif Weithredwr | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth -Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | | 14 Gorffennaf 2014 | I'w gadarnhau |

Tudalen 11

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2014 – Chwefror 2015

Diweddarwyd: 30 Mai 2014

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad – Rheolau Gweithdrefn Contractau**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth | Dirprwy Brif Weithredwr | Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | | 14 Gorffennaf 2014 | I'w gadarnhau. |
| 8 | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad – Mynychu o Bell**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth. | Dirprwy Brif Weithredwr | Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth -Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | | 14 Gorffennaf 2014 | I'w gadarnhau |
| 9 | **Rheolau Sefydlog – Prif Weithredwr**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth. | Dirprwy Brif Weithredwr | Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth -Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 10 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth. | Cymuned | Gwen Carrington Cyfarwyddwraig Cymuned<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 1 Gorffennaf 2014 | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 11 | **Opsiynau ar gyfer gofal a llety pobl hŷn – Cybi**<br><br>Categori: **Strategol** | Cytuno argymhelliad (yn dilyn ymgynghoriad) ar werthu Garreglwyd. | Cymuned | Gwen Carrington Cyfarwyddwraig Cymuned<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 1 Gorffennaf 2014 | 14 Gorffennaf 2014 | |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2014 – Chwefror 2015

Diweddarwyd: 30 Mai 2014

| | **Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth)** | **Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith** | **Adran Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini** | **Dyddiad y Pwyllgor Gwaith** | **Dyddiad y Cyngor Llawn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Opsiynau ar gyfer gofal cymdeithasol pobl hŷn – Amlwch a Llangefni**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth i'r Achos Busnes. | Cymuned | Gwen Carrington Cyfarwyddwraig Cymuned<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 1 Gorffennaf 2014 | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 13 | **Strategaeth Tai Lleol 2014-2019 - drafft**<br><br>Categori**: Strategol** | Cymeradwyaeth i'r cyfeiriad strategol cyn ymgynghori. | Cymuned | Shan L Williams Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 14 | **Llawr y Dref – opsiynau ar gyfer y dyfodol**<br><br>Categori: **Strategol** | Cyneradwyaeth i'r cyfeiriad strategol cyn ymgynghori gyda thenantiaid. | Cymuned | Shan L Williams Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 15 | **Tai Fforddiadwy**<br><br>Categori: **Strategol** | Er gwybodaeth, yn dilyn cais Deilydd Portffolio Cyllid (cofnodion Pwyllgor Gwaith 21.10.13). | Cymuned | Shan L Williams Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | Dyddiad i'w gadarnhau. | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 16 | **Diwygio Cymhorthdal i'r Cyfrif Refeniw Tai**<br><br>Categori: **Strategol** | Newidiadau ac effeithiau'r system gymhorthdal i'r Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru. | Cymuned | Shan L Williams Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 14 Gorffennaf 2014 | |
| 17 | **Canllawiau Cynllunio Atodol - Rhaglen Adeiladu Niwclear Newydd**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth i'r CCA i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn am gadarnhad. | Datblygu Cymunedol | Arthur Owen Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br><br>Cyng J Arwel Roberts | | 14 Gorffennaf 2014 | Gorffennaf 2014 – dyddiad i'w gadarnhau. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2014 – Chwefror 2015

Diweddarwyd: 30 Mai 2014

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | **Siartr Cytundeb Perfformiad Cynllunio**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth | Datblygu Cynaliadwy | Gwyndaf Jones<br>Prif Swyddog Cynllunio<br><br>Cyng J Arwel Roberts | | 14 Gorffennaf 2014 | |
| | | | | | | | |
| 19 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 8 Medi 2014 | |
| 20 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2104/15**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Bethan Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | 1 Medi 2014 | 8 Medi 2014 | |
| 21 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2014/15 – Ch1**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Clare Williams<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 1 Medi 2014 | 8 Medi 2014 | |
| 22 | **Integreiddio Rheoli Adeiladu Môn / Gwynedd**<br><br>Categori: **Gweithredol** | Cefnogaeth i'r trefniadau cydweithio arfaethedig. | Datblygu Cynaliadwy | Jim Woodcock<br>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br><br>Cyng J Arwel Roberts | | 8 Medi 2014 | |



** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2014 – Chwefror 2015

Diweddarwyd: 30 Mai 2014

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 23 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 20 Hydref 2014 | |
| 24 | **Cyllideb 2015/16**<br><br>Categori: **Strategol** | Cychwyn trafod bwriadau'r Pwyllgor Gwaith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Clare Williams Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | 20 Hydref 2014 | |
| 25 | **Cynllun Datblygu Lleol - Adnau**<br><br>Categori**: Strategol** | Sylwadau / cefnogaeth cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. | Datblygu Cynaliadwy | Jim Woodcock Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br><br>Cyng J Arwel Roberts | | 20 Hydref 2014 | |
| | | | | | | | |
| 26 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 3 Tachwedd 2014 | |
| | | | | | | | |
| 27 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 1 Rhagfyr 2014 | |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2014 – Chwefror 2015

Diweddarwyd: 30 Mai 2014

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2104/15**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Bethan Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | 24 Tachwedd 2014 | 1 Rhagfyr 2014 | |
| 29 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2014/15 – Ch2**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Clare Williams<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 24 Tachwedd 2014 | 1 Rhagfyr 2014 | |
| 30 | **Sylfaen y Dreth Gyngor 2015/16**<br><br>Categori: **Strategol** | Cyfrif a gosod Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a'r Cynghorau Tref a Chymuned. | Dirprwy Brif Weithredwr | Clare Williams<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | 1 Rhagfyr 2014 | |
| 31 | **Ymateb y Cyngor Sir i Bwer Nuclear Horizon - proses cyn gwneud cais**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth i'r ymateb. | Datblygu Cynaliadwy | Arthur Owen<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br><br>Cyng J Arwel Roberts | | 1 Rhagfyr 2014 | |
| | | | | | | | |
| 32 | **Cyllideb 2015/16**<br><br>Categori: **Strategol** | Cwblhau cynigion cyllidebol cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Dirprwy Brif Weithredwr | Clare Williams<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | 15 Rhagfyr 2014 | |



** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2014 – Chwefror 2015

Diweddarwyd: 30 Mai 2014

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 33 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 12 Ionawr 2015 | |
| | | | | | | | |
| 34 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 16 Chwefror 2015 | |
| 35 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2104/15**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Bethan Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | 10 Chwefror 2015 | 16 Chwefror 2015 | |
| 36 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2014/15 – Ch3**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Clare Williams<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 10 Chwefror 2015 | 16 Chwefror 2015 | |
| | | | | *Mawrth 2015 ymlaen* | | | |
| - | ***Polisi Gosod Cyffredin***<br><br>*Categori:* ***Strategol*** | *Mabwysiadu Polisi Gosod Cyffredin newydd* | *Cymuned* | *Shan L Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Kenneth P Hughes* | | *16 Mawrth 2015* | |

Tudalen 17

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **9 Mehefin 2014** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Monitro i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn 2013/14** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor a Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Carol Wyn Owen, Rheolwr Polisi a Strategaeth**<br>**01248 752561**<br>**CarolWynOwen@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol.** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Mae'n ofyniad statudol i'r Cyngor ddarparu adroddiad monitro i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithrediad ei Gynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2013/14 – gweler yr adroddiad monitro yn yr Atodiad i'r papur hwn.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn cynnwys yr adroddiad monitro am y cyfnod 2013/14 a chymeradwyo ei anfon ymlaen at sylw Comisiynydd y Gymraeg. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'n ddisgwyliad gan Gomisynydd y Gymraeg i'r adroddiad hwn gael ei dderbyn a'i gymeradwyo i'w anfon ati. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy. Bu i'r Cyngor llawn gymeradwyo Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ym mis Mawrth 2012. Mae'r adroddiad monitro hwn yn amlinellu sut y mae'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i weithredu yn ystod 2013/14. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Nid yw hyn yn berthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim goblygiadau ariannol. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Adain wedi cyfrannu at gynnwys yr adroddiad. |
| **6** | **Eiddo** | Dim yn berthnasol |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Adain wedi cyfrannu at gynnwys yr adroddiad. |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd elfennau o'r adroddiad hwn yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Dim yn berthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Dim yn berthnasol. |

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Dim yn berthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Dim yn berthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Dim yn berthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Rhan allweddol o'r adroddiad. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Dim yn berthnasol |
| **7** | **Arall** | Dim yn berthnasol |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Adroddiad Monitro i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn 2013/14. |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor, Pedwerydd Argraffiad – Mawrth 2012. |

# Adroddiad Monitro Blynyddol

# i Gomisiynydd y Gymraeg

# 2013/14

**Mehefin 2014**

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â'r Swyddog Iaith fel y nodir isod os gwelwch yn dda:

Carol Wyn Owen,
Rheolwr Polisi a Strategaeth,
Adran y Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni,
LL77 7TW

Rhif ffôn: (01248) 752561
E bost: cwoce@ynysmon.gov.uk

## Adroddiad Monitro Cyngor Sir Ynys Môn i Gomisiynydd y Gymraeg am y cyfnod 2013/14

# 1. Cyflwyniad

Dengys Cyfrifiad 2011 bod 57.2% o boblogaeth Ynys Môn (dros 3 oed) yn siarad Cymraeg o'i gymharu â 19% thros Gymru. Er bod hyn yn gosod Môn yn un o gadarnleoedd y Gymraeg ac yn un o'r ddwy Sir yng Nghymru lle mae dros hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg, mae'n dangos gostyngiad o 2.9% ers Cyfrifiad 2001. Y Cyngor Sir yw'r cyflogwr mwyaf ar yr ynys ac mae'n cyflogi rhagor na 3000 o weithwyr (gan gynnwys staff yr ysgolion). Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith yn gymunedol ac fel cyflogwr i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg i'r sefydliad i ddarparu safon uchel o wasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd.

### 1.1 Cynllun Iaith y Cyngor Sir

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ei Gynllun Iaith yn cydnabod statws cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Y Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cyngor ac mae iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor. Mae'r Cynllun Iaith a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, 1993 yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn glynu wrth yr egwyddor o gydraddoldeb wrth ddarparu ei wasanaethau i'r cyhoedd ac wrth gynnal ei weinyddiad mewnol. Cymeradwywyd Cynllun Iaith y Cyngor Sir ar 12 Gorffennaf, 1996 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac fe gyhoeddwyd yr ail argraffiad yn Awst, 1998 a'r trydydd argraffiad yn Rhagfyr, 2007. Mabwysiadwyd pedwerydd argraffiad y Cynllun Iaith gan y Cyngor Sir ar 6 Mawrth, 2012 ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith ar 26 Mawrth, 2012.

### 1.2 Rheolaeth o'r Cynllun Iaith

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb am gadw gorolwg dros y Cynllun a'i weinyddu ynghyd â chyfrifoldeb am yr iaith ar lefel strategol. Mae Swyddog Iaith y Cyngor gyda chyfrifoldeb dydd i ddydd am faterion iaith a monitro gweithrediad y Cynllun Iaith a pharatoi'r adroddiad hwn. Mae'r Grŵp Tasg Iaith fewnol wedi'i sefydlu i osod cyfeiriad strategol a chynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro ac adolygu cynnydd.

Gellir cyflwyno unrhyw ymholiadau am weithrediad y Cynllun at y Swyddog Iaith:

Carol Wyn Owen,
Rheolwr Polisi a Strategaeth,
Adran y Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni,
LL77 7TW

Rhif ffôn: (01248) 752561
E bost: cwoce@ynysmon.gov.uk

### 1.3 Trefniadau Adrodd a Monitro

Yn ei Gynllun Iaith, mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu ei weithrediad gan gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith ac i Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n olynu Bwrdd yr Iaith a ddaeth i ben ar ddiwedd Mawrth 2012. Mae'r Adroddiad Monitro hwn am y cyfnod 1 Ebrill, 2013 i 31 Mawrth, 2014 ac wedi ei seilio ar drefniadau adrodd diwygiedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi mabwysiadu casgliad o ddangosyddion perfformiad gan Fwrdd yr Iaith ac adroddir ar y rhain yng nghorff yr adroddiad. Mae Arweinydd y Cyngor yn gweithredu fel y Deilydd Portffolio Iaith a hefyd yn cadeirio Grŵp Tasg Iaith y Cyngor. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol hefyd yn aelod o'r Grŵp Tasg Iaith.

## 2. Cydymffurfio â'r Cynllun

Dan y pennawd hwn, mae disgwyl i'r Cyngor Sir adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau Cynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith. Mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1 o'r adroddiad ar y Cynllun Iaith diwygiedig ar 6 Mawrth, 2012. Cyfrifoldeb Grŵp Tasg Iaith y Cyngor Sir fydd monitro cynnydd ac mae gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyfrifoldeb am ddadansoddi perfformiad yn gorfforaethol ac yn adrannol, gan gymryd camau positif i ymyrryd drwy adnabod bylchau mewn perfformiad. Bydd unrhyw risgiau'n cael eu trosglwyddo i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w craffu ymhellach.

### 2.1 Gwasanaethau Rheng Flaen

Canolbwyntir yma ar y maes Gofal Cwsmer a rhyngwyneb cyhoeddus y Cyngor Sir. Yma, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd perfformiad isod sy'n canolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen sef:

**DIG2 – Nifer a % swyddi'r brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop un stop a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' a % y rhai a lenwyd gan siaradwyr dwyieithog.**

I gyd-fynd gyda dymuniad y cyn Fwrdd yr Iaith i'r Cyngor Sir i ymestyn yr hyn yr adroddir arno o dan y dangosydd hwn i gynnwys staff eraill sydd â chyswllt rheolaidd gyda'r cyhoedd, megis y llyfrgelloedd a chanolfannau treftadaeth, darperir yr ystadegau a ganlyn:

| Lleoliad | Nifer staff dwyieithog | Nifer y staff Di-Gymraeg |
|---|---|---|
| Prif dderbynfa | 2 | 0 |
| Swyddfa Arian Mân | WEDI CAU | |
| 4 Canolfan Hamdden | 8 | 3 Di-Gymraeg |
| Parc Mownt | 2 | 0 |
| Llyfrgelloedd | 20 | 2 medrusrwydd isel<br>2 ddysgwr uwch |

| Lleoliad | Nifer staff dwyieithog | Nifer y staff Di-Gymraeg |
|---|---|---|
| Archifdy | 3 | 1 |
| Oriel Ynys Môn | 9 | 1 |
| Canolfannau Treftadaeth (staff tymhorol i gyd heblaw am un) | 15 | 2 medrusrwydd isel |
| Canolfan Fusnes | 5 | 0 |
| Derbynfa'r Gwasanaeth Cynllunio | 2 | 0 |

Mae'r ystadegau uchod yn dangos fod 87% o'r staff yn ddwyieithog. Mae'r swyddi hyn sydd yn delio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd yn cael eu hysbysebu'n rhai 'Cymraeg hanfodol'.

### 2.2 Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth – Gwasanaethau Ieuenctid a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn darparu cyfleoedd priodol i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae'r bobl ifanc yn datblygu sgiliau dwyieithog da. Cydnabuwyd hyn gan Estyn yn 2009.

Fe adroddir ar y cwestiynau meysydd blaenoriaeth yn **Atodiad 2.**

## 3. Rheolaeth a Gweinyddiaeth y Cynllun Iaith

### 3.1 Gwasanaethau ar Gontract

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd perfformiad a ganlyn sy'n rhoi pwyslais ar weithio drwy bartneriaeth gogyfer darparu gwasanaeth cyfansawdd dwyieithog i'r cwsmer:

**DIG 1 – Canran o sampl o gontractau gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith.**

### 3.1.1 Rhaglen Cefnogi Pobl

Menter polisi cymdeithasol a fframwaith cyllidol gan Lywodraeth Cymru yw'r rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n darparu cefnogaeth mewn perthynas â materion tai i amrediad o bobl bregus. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn comisiynu 50 o brosiectau gan 16 o ddarparwyr trwy gontractau o dan y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Er mwyn parhau i gryfhau trefniadau monitro cydymffurfiaeth o ran yr iaith Gymraeg, anfonwyd holiadur at holl ddarparwyr prosiectau Cefnogi Pobl eto eleni**.**

Roedd 9 o’r 16 darparwr wedi dychwelyd yr holiadur o fewn amserlen cwblhau’r adroddiad hwn.  Amlinellir canlyniadau monitro’r sampl o’r 9 darparwr (56%) isod:

| Darparwyr Rhaglen Cefnogi Pobl | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | % wedi’u monitro | % sy’n cydymffurfio | % ddim yn cydymffurfio |
| 16 | 56% (9) | 89% (8) | 11% (1) |

Mae’r Tîm Cefnogi Pobl yn cynnal cyfarfodydd monitro rheolaidd gyda darparwyr ac yn adolygu gwasanaethau ar gylch tair blynedd.  Bydd diffygion o ran cydymffurfiaeth yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hynny.

### 3.1.2 Contractau sy’n darparu ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

Ers 1 Ebrill 2013, mae cyfrifoldeb am y maes yma wedi trosglwyddo i Bartneriaeth Gwynedd a Môn.

Comisiynwyd 9 o ddarparwyr allanol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd allan o grant Teuluoedd yn Gyntaf gyda gweddill y gwasanaethau yn cael eu darparu gan swyddogion mewnol.  Mae cymal ym mhob cytundeb gwasanaeth yn nodi bod rhaid i’r gwasanaeth fod yn ddwyieithog ar draws yr holl sir ac mae yn rhaid i’r Swyddogion Mewnol fod yn ddwyieithog.

Mae adroddiadau chwarterol / diwedd blwyddyn wedi eu derbyn ac mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau o ddeunydd cyhoeddus. Penodwyd Swyddog Monitro sydd wedi monitro'r holl wasanaethau yn ystod 2013/14 gan gynnwys y defnydd o’r iaith Gymraeg.

Mae’r holl ddarparwyr yn cydymffurfio â’r gofynion ac yn sicrhau bod y gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Am y tro cyntaf yn ystod 20 13/14 bu i ni hefyd gadw cofnod o’r iaith mae’r teuluoedd yn dymuno derbyn gwasanaeth.

| Darparwyr – Teuluoedd yn Gyntaf | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | % wedi’u monitro | % sy’n cydymffurfio | % ddim yn cydymffurfio |
| 13 | 100% (13) | 100% (13) | 0% |

### 3.1.3 Cyllido addysg blynyddoedd cynnar yn y sector nas cynhelir

Mae’r Cyngor Sir yn cyllido 48 o gylchoedd meithrin yn y sector wirfoddol, gan gynnwys staffio, hyfforddiant, cefnogaeth gwricwlaidd, dodrefn, offer a chostau adeiladau.  Hefyd, cyllidir Cynllun Cyfeirio er mwyn cefnogi plant gydag anghenion ychwanegol.  Mae’r cyllid a rennir yn amodol ar lynu at egwyddorion penodol, sy’n cynnwys yr isod:

“*Bydd y darparwyr yn gweithredu o fewn Polisi Iaith yr Awdurdod gan anelu at osod sylfaen gadarn i ddatblygiad ieithyddol y plant yn y Gymraeg”.*

Mae’r Awdurdod wedi atgyfnerthu’r egwyddor hwn drwy gytundebau lefel gwasanaeth rhwng yr Awdurdod a’r darparwyr unigol. Mae’r Awdurdod yn monitro cydymffurfiaeth trwy ymweliadau rheolaidd gan athrawes gefnogol y blynyddoedd cynnar, pryd y byddai unrhyw bryderon yn cael eu trafod gyda’r swyddog addysg, ac arolygiadau rheolaidd Estyn. Hefyd, mae’n gyfrifoldeb ar y Tîm Blynyddoedd Cynnar i gyflwyno adroddiad monitro i’r Awdurdod yn flynyddol.

Yn dilyn derbyn adroddiadau monitro Haf 2012, danfonwyd llythyr i un cylch i ddatgan fod angen iddynt wella eu darpariaeth Cymraeg. Adolygwyd cynnydd y cylch yma’n ffurfiol yn Haf 2013 a chafwyd cynnydd da.

Yn dilyn derbyn adroddiadau monitro Haf 2013, danfonwyd llythyr i ddau gylch i ddatgan fod angen iddynt wella eu darpariaeth Cymraeg. Bydd cynnydd y cylchoedd yma’n cael ei adolygu’n ffurfiol yn Haf 2014 ond mae’r adroddiadau monitro canol blwyddyn yn dangos cynnydd derbyniol hyd yma.

Mae’r Awdurdod am fireinio’r trefniadau monitro blynyddol yn 2014.

| **Darparwyr Addysg blynyddoedd cynnar – sector nas cynhelir (cylchoedd meithrin)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | % wedi’u monitro | % sy’n cydymffurfio | % ddim yn cydymffurfio |
| 48 | 100% (48) | 96% (46) | 2% (2) |

### 3.1.4. Datblygiadau yn y Maes Contractau

Er mwyn parhau’r cynnydd yn y maes hwn ymhellach, mae’r Cyngor bellach wedi cwblhau’r ddwy strategaeth allweddol sef y Strategaeth Comisiynu a’r Strategaeth Pwrcasu. Mae’r ddwy strategaeth gyda chyfeiriad allweddol i’r gofynion o ran yr Iaith Gymraeg a gwaith parhaus o ymgorffori’r gofynion ieithyddol o fewn cyfraniadau penodol i’r gymuned.

### 3.2 Cwynion

Yn ogystal, canolbwyntir ar safon y gwasanaethau iaith Gymraeg a ddarperir gan y Cyngor Sir trwy adrodd ar y dangosydd perfformiad isod sef:

| **DIG6 – Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y sefydliad** |
|---|

Bu 3 cwyn yn ystod y cyfnod ac ymdriniwyd â’r 3 yn unol â’r safonau corfforaethol = 100%.

Daeth Polisi Pryderon a Chwynion newydd i rym yng Nghyngor Sir Ynys Môn ar 11 Ebrill, 2013 sy’n golygu yr ymatebir i gwynion mewn ffordd wahanol ac y cymerir

camau i ddysgu o bryderon a fynegir gan gwsmeriaid. Mae'r polisi yn seiliedig ar y Polisi Enghreifftiol a ddatblygwyd gydag Ombwdsman Cyhoeddus Cymru fel system gyffredin i ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ddelio ô chwynion.

Mae'r polisi yn nodi 3 cam ar gyfer datrys cwynion. Mae'r cam cyntaf yn ymwneud â datrysiad anffurfiol, gyda phryderon yn cael eu datrys yn y pwynt cyswllt. Mae cam dau yn golygu y bydd cwynion yn cael eu hymchwilio'n fewnol. Fe all trydydd cam y broses olygu cyfeirio'r gwyn i'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ddelfrydol bydd y Cyngor yn ceisio datrys cymaint ag sy'n bosibl o'r materion hyn yn y pwynt cyswllt cyntaf.

Isod ceir dadansoddiad o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd ynghyd â'r camau cywiro:

| | |
|---|---|
| Cwyn 1 | Derbyniwyd cwyn bod y Cyngor wedi ymateb yn Saesneg i e-bost Cymraeg.<br><br>Camau Cywiro - anfonwyd ateb yn ymddiheuro ac yn amgáu cyfieithiad Cymraeg o'r ymateb gwreiddiol. Daethpwyd a'r mater i sylw holl staff yr Adran gan eu hatgoffa o ofynion y Cynllun Iaith. |
| Cwyn 2 | Ymholiad gan y Comisiynydd Iaith ynglŷn â ras 'Ring of Fire' a gynhelir yn flynyddol ym Môn. Roedd y trefnwyr wedi rhestru'r Cyngor ymhlith ei chefnogwyr ar eu gwefan. Gofynnwyd beth oedd natur cefnogaeth y Cyngor i'r ras ac os oedd yna amodau ieithyddol i'r gefnogaeth.<br><br>Ymateb - eglurwyd nad oedd y Cyngor yn gwneud cyfraniad ariannol o gwbl ac mai natur y gefnogaeth oedd rhoi caniatâd i'r ras gychwyn ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi. |
| Cwyn 3 | Derbyniwyd cwyn bod yr arwydd o flaen Ysgol y Bont (newydd), Llangefni yn uniaith Gymraeg.<br><br>Ymateb - anfonwyd ateb yn egluro bod yr arwydd yn cydymffurfio â Chynllun Iaith y Cyngor (rhan 5.2.2.) sef:<br><br>*'Bydd y Cyngor yn arddel fersiwn Gymraeg yn unig o enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd ayyb, ac ar sefydliadau'r Cyngor heblaw mewn achosion lle mae'r Cyngor wedi cydnabod fersiwn Saesneg swyddogol'.*<br><br>Enw swyddogol y sefydliad yw 'Canolfan Addysg y Bont' ac nid yw'r Cyngor wedi cydnabod fersiwn Saesneg swyddogol. |

# 4. Digonolrwydd Sgiliau Iaith Gymraeg

## 4.1 Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Dan y pennawd hwn, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd isod:

**DIG5 – nifer a % y staff o fewn gwasanaeth y Cyngor sy'n medru siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon a staff ysgol)**

- **fesul adran wasanaeth**
- **yn ôl gradd y swydd**
- **fesul gweithle (swyddfa, canolfan a phrif swyddfeydd ardal).**

Mae'r Cyngor Sir bellach yn gweithredu'i Strategaeth Sgiliau ac yn cydnabod ei fod yn greiddiol i sicrhau fod gan y sefydliad y sgiliau dwyieithog ar hyn o bryd ac i'r dyfodol i ddarparu dewis iaith i'r cyhoedd.

Mae'r Cyngor Sir wedi gallu adrodd ar y dangosydd uchod eto eleni, gyda chymorth y system gyfrifiadurol adnoddau dynol, 'Northgate', ond mae'r dadansoddiad fesul gwasanaeth (4.1.1) wedi newid o ganlyniad i strwythur gwasanaeth newydd a ddaeth yn weithredol ar 1 Tachwedd 2013. Mae'r gwaith o lanhau'r data, yn ogystal ag ymdrechion i gynyddu nifer y dychweliadau, yn parhau.

Rhagwelir i'r dyfodol y bydd yn her i recriwtio a chynllunio'r gweithlu mewn rhai meysydd. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr elfen gystadleuol o fewn y farchnad lafur gyda chyflogau a'r ffaith nad oes bellach gynllun hyfforddeion proffesiynol gan y sefydliad. Yn ogystal, bydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r toriadau sydd ynghlwm â hyn yn cynyddu'r risg o ran cynllunio'r gweithlu i'r dyfodol.

Dangosir yr ystadegau cyfredol isod:

| **Diffiniadau** | |
|---|---|
| 0 | Dim Sgiliau |
| 1 | Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd) |
| 2 | Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith |
| 3 | Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol |
| 4 | Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg |
| 5 | Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen |

### 4.1.1 Dadansoddiad fesul Gwasanaeth

**Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr**

Nifer staff - 8
Nifer dychweliadau - 6
% dychweliadau 75%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (17%) | 0 (0%) | 5 (83%) |

## Cyfadran y Dirprwy Brif Weithredwr

**Adnoddau**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 123
Nifer Dychweliadau – 112
% Dychweliadau – 91%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 3 (3%) | 5 (4%) | 6 (5.5%) | 6(5.5%) | 11 (10%) | 81 (72%) |

**Trawsnewid Corfforaethol**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 35
Nifer dychweliadau – 25
% dychweliadau – 71%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (4%) | 0 (0%) | 3 (12%) | 21 (84%) |

**Busnes y Cyngor**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 35
Nifer dychweliadau – 35
% dychweliadau – 100%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (3%) | 1 (3%) | 3 (9%) | 30 (86%) |

## Cyfadran Dysgu Gydol Oes

Nifer staff yn y gwasanaeth – 175
Nifer dychweliadau – 124
% dychweliadau – 71%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 2 (1%) | 4 (3%) | 7 (6%) | 4 (3%) | 23 (19%) | 84 (68%) |

## Cyfadran Cymuned

**Gwasanaeth Darparu**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 540
Nifer dychweliadau – 308
% dychweliadau – 57%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 32 (10%) | 29 (10%) | 22 (7%) | 18 (6%) | 32 (10%) | 175 (57%) |

**Gwasanaeth Tai**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 118
Nifer dychweliadau – 109
% dychweliadau – 92%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 4 (4%) | 7 (6%) | 4 (4%) | 5 (4%) | 13 (12%) | 76 (70%) |

**Gwasanaeth Plant**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 92
Nifer dychweliadau – 56
% dychweliadau –61%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 7 (13%) | 3 (5%) | 3 (5%) | 10 (18%) | 33 (59%) |

**Gwasanaeth Oedolion**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 102
Nifer dychweliadau – 68
% dychweliadau – 67%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 2 (3%) | 2 (3%) | 2 (3%) | 5 (7%) | 14 (21%) | 43 (63%) |

## Cyfadran Datblygu Cynaliadwy

**Amgylchedd a Thechnegol**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 193
Nifer dychweliadau – 153
% dychweliadau – 79%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 4 (2.5%) | 8 (5%) | 4 (2.5%) | 4 (2.5%) | 22 (14.5%) | 111 (73%) |

**Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 102
Nifer dychweliadau – 83
% dychweliadau – 81%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 9 (11%) | 3 (3.5%) | 3 (3.5%) | 14 (17%) | 54 (65%) |

**Gwasanaeth Datblygu Economaidd a Chymunedol**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 301
Nifer dychweliadau – 133
% dychweliadau – 44%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 10 (8%) | 12 (9%) | 8 (6%) | 11 (8%) | 17 (13%) | 75 (56%) |

## 4.1.2 Dadansoddiad yn ôl Graddfa Swydd

**Prif Swyddogion**
Nifer staff - 24
Nifer dychweliadau – 15
% dychweliadau – 63%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % | 0 (0%) | 1 (7%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 3 (20%) | 11 (73%) |

**Graddfeydd S01, S02 a P0**
Nifer staff - 443
Nifer dychweliadau – 329
% dychweliadau – 74%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % | 3 (1%) | 23 (7%) | 13 (4%) | 18 (5%) | 53 (16%) | 219 (67%) |

**Graddfa 1-6**
Nifer staff - 1357
Nifer dychweliadau – 871
% dychweliadau – 64%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % | 54 (6%) | 59 (7%) | 48 (6%) | 43 (5%) | 106 (12%) | 561 (64%) |

## 4.1.3 Dadansoddiad Fesul Gweithle

**Staff a leolir mewn swyddfa**
Nifer staff yn y maes – 994
Nifer dychweliadau – 774
% dychweliadau – 78%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 12 (2%) | 44 (5.5%) | 28 (3.5%) | 32 (4%) | 105 (14%) | 553 (71%) |

**Gofal Cymunedol**
Nifer staff yn y maes – 289
Nifer dychweliadau – 212
% dychweliadau – 73%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 32 (15%) | 25 (11.5%) | 12 (6%) | 14 (7%) | 23 (10.5%) | 106 (50%) |

**Gofal Preswyl**
Nifer staff yn y maes – 205
Nifer dychweliadau – 92
% dychweliadau – 45%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 3 (3%) | 5 (5%) | 10 (11%) | 6 (7%) | 13 (14%) | 55 (60%) |

**Canolfannau Hamdden**
Nifer staff yn y maes – 212
Nifer dychweliadau – 59
% dychweliadau – 28%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 9 (15%) | 6 (10%) | 4 (7%) | 6 (10%) | 7 (12%) | 27 (46%) |

**Amgueddfeydd, Archifau a Diwylliant**
Nifer staff yn y maes – 45
Nifer dychweliadau – 21
% dychweliadau – 47%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 2 (9.5%) | 2 (9.5%) | 11 (52%) | 6 (29%) |

**Llyfrgelloedd**
Nifer staff yn y maes – 52
Nifer dychweliadau – 34
% dychweliadau – 65%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 1 (3%) | 2 (6%) | 3 (9%) | 1 (3%) | 1 (3%) | 26 (76%) |

**Parciau**
Nifer staff yn y maes – 8
Nifer dychweliadau – 6
% dychweliadau – 75%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (17%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 5 (83%) |

**Safleoedd Rheoli Gwastraff**
Nifer staff yn y maes – 19
Nifer dychweliadau – 17
% dychweliadau – 89%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 1 (6%) | 1 (6%) | 0 (0%) | 2 (12%) | 13 (76%) |

### 4.2 Adnoddau Dynol a Sgiliau

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd isod sy'n canolbwyntio ar y maes adnoddau dynol a datblygiad sgiliau ieithyddol er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cwsmer.

**DIG4 – Adnoddau Dynol – sgiliau**

**(a) nifer a % y staff (siaradwyr Cymraeg a dysgwyr) sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol.**

**(b) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.**

Isod darperir gwybodaeth am y niferoedd a fynychodd y gwahanol lefelau o gymhwyster hyfforddiant iaith a gynigir am y cyfnod adrodd:

| **Cymhwyster** | **Nifer** |
|---|---|
| Cwrs Wlpan (mewnol) | 12 |
| Cwrs Wlpan (cwrs allanol) | 1 |
| Cwrs Canol Wlpan (cwrs allanol) | 3 |
| Cwrs Pellach (cwrs allanol) | 5 |
| Cwrs Pellach Parhad (cwrs allanol) | 1 |
| Cwrs Uwch Parhad (cwrs allanol) | 1 |
| Gloywi Iaith | 7 |
| **CYFANSWM** | **30** |

Yn ogystal â'r cyrsiau isod, mae nifer fechan o staff wedi mynychu cwrs Cymraeg yn y Gweithle wedi'i ddarparu gan Brifysgol Bangor ac mae staff hefyd wedi mynychu cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn.

Darperir elfen o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith dan y Cynllun Anwytho Staff. Mae'r nifer wedi lleihau peth ers llynedd o ganlyniad i leihad yn y nifer o staff sydd wedi cael eu recriwtio. Yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw fe'i derbyniwyd gan y niferoedd a ganlyn:

| Dyddiad | Niferoedd |
|---|---|
| Mai 2013 | 7 |
| Mehefin 2013 | 3 |
| Gorffennaf 2013 | 7 |
| Tachwedd 2013 | 20 |
| **CYFANSWM** | **37** |

Yn ogystal, darparwyd elfen o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r broses Anwytho i'r Aelodau Etholedig newydd ym mis Mai, 2013.

Cyn dechrau tymor newydd o wersi iaith ym mis Medi, trefnwyd dwy sesiwn marchnata yn y Prif Adeilad er mwyn i staff gael dod i ddysgu mwy am yr ystod o wersi sydd ar gael ac fe gafwyd cyfle i staff gael sgwrs gyda'r tiwtoriaid iaith i ddod o hyd i'r cwrs mwyaf addas i'w gallu.

Am y tro cyntaf eleni, cynigwyd gwersi iaith ar lefel un i un ac mae 5 o uwch swyddogion yn mynychu ar hyn o bryd er mwyn cynyddu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd.

Mae'r Adain Adnoddau Dynol yn cydweithio'n agosach gyda'r gwasanaethau i fonitro cynnydd unigolion gydag amodau dysgu yn eu cytundebau cyflogaeth yn ogystal â monitro'r nifer o swyddi sy'n gofyn am siaradwr Cymraeg drwy'r broses recritwtio. Mae'r ffurflen asesu sgiliau iaith yn parhau i gael ei gynnwys yn y pecyn gwerthuso blynyddol ac yn cael ei ddefnyddio fel cyfle arall i geisio cadw'r awdit sgiliau'n gyfredol.

Er mwyn cyfrannu at y broses o godi ymwybyddiaeth staff newydd am fuddion cyflwyno dwyieithrwydd i'w plant o oedran cynnar, mae pecyn y mudiad TWF yn cael ei gynnwys fel rhan o'r pecyn Anwytho Staff.

## 5. Prif Ffrydio'r Gymraeg

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn diffinio prif ffrydio fel yr angen i ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd o waith y sefydliad. Golyga hyn gymryd pob cyfle i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o Gymru ddwyieithog a chynllunio a darparu gwasanaethau yn y ddwy iaith. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn 'annog prif-ffrydio materion yn ymwneud â'r Gymraeg o fewn….Llywodraeth leol'. Nodir yn ogystal fod angen i 'egwyddorion prif ffrydio fod yn sail i'r gwaith o wneud polisi a darparu gwasanaethau ar draws holl gyfrifoldebau cyrff o'r fath.' Isod ceir rhai enghreifftiau o sut mae'r Cyngor Sir yn ceisio prif ffrydio'r Gymraeg.

### 5.1 'Mwy Na Geiriau'

Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i'r Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol a luniwyd gan Llywodraeth Cymru. Cydnabyddir bod gan sefydliadau gyfrifoldeb i adnabod ac i ymateb i angen ieithyddol fel rhan greiddiol o ofal ac i wneud hynny trwy 'gynnig rhagweithiol' o ddewis iaith. Mae Cyngor Sir wedi gosod rhaglen weithredu yn ei

lle, sydd wedi ei mabwysiadu gan y Penaethiaid ac wedi ei chraffu gan y Grŵp Iaith. Credwn yn gryf mai ond drwy berchnogaeth gorfforaethol y gwireddir amcanion y strategaeth. Barn y Cyngor Sir ydi ein bod yn gyffredinol yn cwrdd â gofynion y Strategaeth sydd yn ddisgwyliedig ar y pwynt yma yn y rhaglen. Bydd cyfeiriad at gynnydd yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol at Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

### 5.2. Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth

Mae'r gwasanaethau wedi derbyn cais am adroddiadau cynnydd yn erbyn targedau'r cynlluniau gweithredu gwasanaeth a gwblhawyd y 2 flynedd yn ôl fel rhan o'r Cynllun Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog a ariannwyd gan Fwrdd yr Iaith. O'r ymatebion sydd wedi dod i law hyd yn hyn, ceir rhai enghreifftiau o arfer da gan wasanaethau unigol:

- Mae ymgynghorydd allanol sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn dysgu gair Cymraeg y dydd a brawddeg yr wythnos ers peth amser ac wedi datgan y bwriad i fynd i Nant Gwrtheyrn i ddysgu Cymraeg. Erbyn hyn mae'r unigolyn yn deall lefel uwch o Gymraeg.

- Mynegwyd awydd i arddangos gwybodaeth weledol o fewn un gwasanaeth i annog y defnydd o'r Gymraeg.

### 5.3 Grŵp Tasg Iaith

Mae aelodaeth y Grwp Tasg Iaith wedi cael ei adolygu ac fe'i gadeirir gan y Deilydd Portffolio Iaith, Arweinydd y Cyngor Sir. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol hefyd yn aelod er mwyn sicrhau bod plethiant digonol gyda'r gyfundrefn sgriwtini. Yn ddiweddar, treuliodd y Grwp amser yn ystyried goblygiadau'r Safonau Iaith arfaethedig i'r sefydliad gan fewnbynnu i ymateb ffurfiol y Cyngor Sir i Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae aelodaeth y Grwp Tasg Iaith wedi cael ei adolygu ac fe'i cadeirir gan y Deilydd Portffolio Iaith, Arweinydd y Cyngor Sir.

### 5.4 Fforwm Iaith

Ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae'r Fforwm Iaith bellach wedi'i sefydlu ac wedi cyfarfod tair gwaith. Mae sefydlu'r Fforwm yma yn rhan greiddiol o Gynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn fodd i hyrwyddo datblygiad a chynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith fyw a ffyniannus, fydd yn amlwg ym mhob agwedd fywyd a gwaith dinasyddion a chymunedau'r Ynys. Disgwylir i'r Fforwm tros y blynyddoedd nesaf chwarae rhan allweddol yn natblygiad polisïau a gweithdrefnau effeithiol i gynnal a hyrwyddo twf yr iaith ar yr Ynys. Ceir cynrychiolaeth lefel uchel o blith nifer o gyrff allweddol ar y Fforwm sy'n sicrhau ystod o sgiliau a phrofiadau i gyfrannu at y nodau ac amcanion yn llwyddiannus.

Mae'r Fforwm yn ystyried y meysydd blaenoriaeth ar hyn o bryd a fydd yn sail i greu Cynllun Gweithredu cadarn i'r dyfodol. Rhagwelir y bydd ffocws ar:

- Ddylanwadu ar y sefydliadau a'r datblygiadau mawr sydd yn dod i'r ynys
- Hunaniaith a sgiliau ieithyddol pobl ifanc
- Mapio'r ddarpariaeth sydd ar gael ar lefel partneriaethol

## 5.5 Technoleg Gwybodaeth

### 5.5.1 Y Wefan a Chyfryngau Eraill

Yn dilyn arolwg o wefannau Cynghorau Sir yn ôl yn 2010, cymeradwywyd y Cyngor Sir ar safon ac ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau bod pob tudalen cynnwys yn ddwyieithog ynghyd â phob dogfen a ffurflen atodol. Yn ogystal, cynigir profiad gwe-lywio ieithyddol hwylus o fewn y safle gydag ansawdd y Gymraeg yr un mor gywir â'r Saesneg.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfwng y Wefan trwy'r dulliau a ganlyn:

- trwy ddarparu 'Facebook' yn ddwyieithog (mae 369 o ddilynwyr cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd o'i gymharu â'r 194 o ddilynwyr yn 2013);
- trwy ddarparu'r cyfrwng 'Twitter' yn ddwyieithog (mae 1236 o ddilynwyr cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd o'i gymharu â'r 420 o ddilynwyr yn 2013);
- trwy'r rhaglen Modern Gov sydd ar hyn o bryd yn darparu cofnodion pwyllgorau'n ddwyieithog ac a ddefnyddiwyd i gyflwyno canlyniadau'r etholiad lleol yn fyw ar 3 Mai, 2013 ac etholiad Cynulliad Cymru (Ynys Môn) yn Awst, 2013.
- trwy'r rhaglen Modern Gov, cyhoeddwyd rhestr ddwyieithog o ddiddordebau, rhoddion a lletygarwch yr Aelodau Etholedig.
- trwy ddarparu safle ddwyieithog twristiaeth Croeso Môn – bydd y safle wedi'i chwblhau erbyn Ebrill, 2014.

## 5.6 Asesu Effaith Cydraddoldeb

Rydym yn parhau i weithio tuag at sicrhau ymagwedd gyson ar draws yr awdurdod yn nhermau cwblhau asesiadau effaith cadarn. Mae templed a chanllawiau – sy'n cynnwys canllawiau manwl yn seiliedig ar ddogfen 'Cyngor ar brif ffrydio'r Iaith Gymraeg' Bwrdd yr Iaith – ar gael ar ein mewnrwyd ac mae'r Uned Bolisi'n parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor i wasanaethau.

Er mwyn integreiddio a phrif lifo ystyriaethau cydraddoldeb ymhellach, rydym yn bwriadu sicrhau aliniad agosach rhwng y broses asesu effaith ar gydraddoldeb a rheoli prosiectau o fewn yr Awdurdod. Bydd sgrinio cychwynnol yn digwydd ar gychwyn prosiectau ac yn parhau i fod yn rhan annatod o'r broses.

## 6. Dadansoddiad o Berfformiad fesul Blaenoriaeth/Targed

Adroddir isod gynnydd yn erbyn y prif flaenoriaethau a risgiau:

| Gweithred | Targed | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithredu Rhaglen Trawsnewid y Cyngor | Yn dilyn yr etholiad, sicrhau fod strwythurau llywodraethu a chraffu mewn lle. | Deilydd Portffolio Iaith wedi'i benodi.<br>Gweithgor Iaith yn cyfarfod dan gadeiryddiaeth y Deilydd Portffolio Iaith. |
| Gweithredu'r Strategaeth 'Mwy na Geiriau' | Adrodd ar gynnydd y rhaglen waith erbyn 1/4/14 | Gweler 5.1. |
| Ymgorffori'r Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth i'r Cynlluniau Busnes | Datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad erbyn 1/9/13 | Rhai gwasanaethau wedi adrodd ar gynnydd – gweler 5.2. |
| Datblygu Sail Tystiolaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg | Cwblhau erbyn Rhagfyr, 2013 ar ôl derbyn ystadegau'r Cyfrifiad | Drafft o'r wedd gyntaf wedi'i dderbyn.<br><br>Fersiwn derfynol ar gael yn ystod Gwanwyn 2014. |
| Cynnal Asesiadau Effaith ieithyddol ar bolisïau a chynlluniau'r Cyngor Sir | Rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Cydraddoldeb a fabwysiedir erbyn 1/4/12 | Gweler y cynnydd yn y maes hwn dan y pennawd 5.6. |
| Datblygu'r maes contractau | Gweler 3.1.4. | Gweler 3.1.4. |
| Gweithredu'r Safonau Iaith | Sefydlu gweithdrefnau priodol i gwrdd â'r Safonau Iaith. | Wedi darparu ymateb i'r Ymchwiliad ar y Safonau |

Yn ychwanegol at yr uchod, mae colli un swydd amser llawn yn yr **Uned Gyfieithu** fel rhan o arbedion effeithiolrwydd blwyddyn ariannol 2011/12 yn parhau'n risg

Hefyd, mae'r ffaith bod y Cyngor wedi diddymu'r **Cynllun Hyfforddeion** ers sawl blwyddyn bellach, fel rhan o'r arbedion effeithlonrwydd, yn peri risg i'r Gymraeg. Roedd y cynllun hwn yn bwysig o ran cynllunio olyniaeth o fewn y gweithlu gogyfer y dyfodol.

## 7. Enghreifftiau o Arfer Da

### 7.1 Datblygu Sail Tystiolaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg

Wrth ystyried nodweddion cymdeithasol ac economaidd yr ynys a'r angen i hyrwyddo a gwarchod ei diddordebau trwy greu a chefnogi cymunedau cynaliadwy a datblygu'r economi, mae'r Cyngor Sir yn cydnabod yr angen i greu sail tystiolaeth gadarn am yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. I gwrdd â'r angen hwn, dan raglen waith yr Ynys Ynni, mae'r Cyngor Sir a'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi comisiynu

Astudiaeth Gwaelodlin o'r Iaith Gymraeg ym Môn. Bydd y waelodlin hon yn rhoi darlun cynhwysfawr a chywir am statws a llewyrch y Gymraeg a fydd yn sail gadarn ar gyfer paratoi a llywio polisïau a strategaethau, asesu effaith datblygiadau newydd a negydu manteision cymunedol/camau lliniaru gyda darpar ddatblygwyr. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau cyn yr haf. Yn ogystal, mae Arolwg Taith ac Iaith Gwynedd ac Ynys Môn wedi'i gynnal sydd hefyd yn ffynhonnell tystiolaeth ddefnyddiol.

### 7.2. Defnydd o Gyfryngau Newydd i Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod llwyddiant cyfryngau megis 'Facebook' a 'Twitter' er mwyn cynyddu'r deialog trwy gyfrwng y Gymraeg gyda dinasyddion. Mae dilynwyr cyfrwng Cymraeg 'Facebook' a 'Twitter' y Cyngor Sir wedi cynyddu eto eleni (gweler 5.5.1.) Bu'r defnydd o dechnoleg wrth gyhoeddi canlyniadau'r etholiad lleol yn fyw yn 2013 hefyd yn ddefnydd dyfeisgar o dechnoleg i hyrwyddo democratiaeth leol yn ddwyieithog.

### 7.3. Siartr Iaith ar gyfer Ysgolion

Ar 14 Chwefror, 2014 cynhaliwyd cynhadledd i Brifathrawon i godi ymwybyddiaeth am fuddiannau cyflwyno Siartr Iaith i Ysgolion. Byddai'r Siartr hwn yn gosod fframwaith mewn lle ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn addysgol a chymdeithasol mewn ysgolion. Yn dilyn gwerthusiad o'r adborth cadarnhaol a gafwyd i'r gynhadledd, rhoddir ystyriaeth i'r ffordd ymlaen.

### 7.4. Cynllun Cyfieithu Cymunedol

Mae Gweithgor Cynllun Cyfieithu Cymunedol wedi'i sefydlu ers Medi 2013 gan y Cyngor Sir, y Fenter Iaith, Medrwn Môn a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru er mwyn datblygu model cynaliadwy o ddarparu gwasanaeth cyfieithu cymunedol i'r ynys. Mae'r ffocws gwaith yn edrych ar ffynonellau grantiau posibl a'r potensial i hyfforddi unigolion i gyfieithu ar y pryd o fewn eu cymunedau. Mae'r gwaith hwn yn enghraifft o geisio prif lifo'r iaith ar lefel strategol yn gymunedol.

## 8. Cyhoeddi Gwybodaeth ar Berfformiad

Cyflwynir yr Adroddiad Monitro i gyfarfod y Grwp Tasg Iaith ar 20 Mai, 2014 a'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Mehefin, 2014

Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar gyfer y cyhoedd ar wefan y Cyngor Sir ac mewn llyfrgelloedd ar yr ynys.

## Cynllunio Gwasanaeth Dwyieithog

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/14 |
|---|---|---|---|---|
| **Polisïau a Mentrau Newydd**<br><br>Byddwn yn parhau i brif ffrydio'r Gymraeg i bolisïau, strategaethau a phenderfyniadau allweddol trwy gryfhau ein trefniadau. | Cynnal asesiadau effaith ar bolisïau, strategaethau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor Sir. | Hyfforddiant ar gael i staff allweddol yn ystod Tachwedd, 2011.<br><br>Templed a threfn gorfforaethol mewn lle erbyn 1/4/12. | Penaethiaid Gwasanaeth gyda'r Uned Bolisi yn cynnig arweiniad. | Gweler 5.6. |
| **Gweinyddiaeth Fewnol**<br><br>Byddwn yn parhau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y Cyngor. | Cynnal y prosiect 'Newid Agweddau - Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth' dan Gynllun Gweithleoedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith trwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith a darparu pecynnau i uwch swyddogion a rheolwyr, comisiynwyr ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith. | 31/12/11 | Ymgynghorydd allanol dan nawdd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. | Prosiect wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ac Adroddiad Diwedd Prosiect wedi'i ddarparu i Fwrdd yr Iaith erbyn 31/3/12 |
| Byddwn yn annog gwasanaethau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol | Cynnal cynllun Pencampwyr Iaith o fewn y gwasanaethau<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth i lunio Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth<br><br>Monitro cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg trwy ddata'r Uned Gyfieithu. | Parhaus<br><br>1/4/12<br><br>Parhaus | Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi<br>Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi<br><br>Uned Bolisi/Adain Gyfieithu | Canllaw gweithredu wedi'i baratoi i Bencampwyr<br><br>Parhau i ddadansoddi'r patrymau defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Byddwn yn anwytho Aelodau Etholedig newydd ar egwyddorion y Cynllun Iaith. |

## Cyflwyno Gwasanaeth Dwyieithog

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/14 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau ar Gontract**<br><br>Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfleu ac yn monitro gofynion y Cynllun Iaith i gyrff trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth trwy gontract ar ran y Cyngor. | Cynnal archwiliad o sampl o gontractau i sicrhau cydymffurfiaeth ieithyddol.<br><br>Diweddaru'r Canllawiau i Staff ar osod gwasanaethau trwy gontract i gyd-fynd ag egwyddorion 'Canllaw Caffael' Bwrdd yr Iaith | Llunio rhaglen dreigl o gontractau i'w harchwilio erbyn 1/4/12<br><br>30/6/12 | Uned Bolisi i arwain mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth.<br><br>Uned Bolisi | Llithriad yn y targed hwn oherwydd gofynion eraill.<br><br>Wedi cychwyn adolygu gofynion y 'Canllaw Caffael'.<br>Cynhyrchu Strategaeth Gomisiynu ar gyfer y Cyngor erbyn Medi, 2013. Cofrestr gychwynnol o brif gontractau'r Cyngor wedi'i gwblhau.<br><br>Gweler 3.1.4. |
| **Gwasanaeth Ieuenctid**<br><br>Byddwn yn sicrhau fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg | Adrodd i Fwrdd yr Iaith yn yr Adroddiad Monitro ar sut y gwnaeth y Gwasanaeth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.<br><br>Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i arweinyddion y Clybiau ieuenctid.<br><br>Adnabod pencampwr iaith ar gyfer y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc | Yn flynyddol<br><br>3/9/11<br><br>31/12/11 | Rheolwr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc/Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid<br><br>Menter Iaith Môn mewn ymgynghoriad â'r Cyngor.<br><br>Rheolwr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc | Darparwyd adroddiad ar hyn.<br><br>Cynhaliwyd yr hyfforddiant yn llwyddiannus.<br><br>Pencampwr Iaith wedi'i adnabod ond adnabyddir cyfleoedd pellach yn sgil Rhesymoli Partneriaethau. |

## Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/14 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Trwy Gyfrwng y Gymraeg**<br>Byddwn yn ail godi ymwybyddiaeth staff | Ailgyhoeddi canllawiau i staff sy'n cynnig arweiniad ar ddarparu gwasanaeth yn dewis iaith y defnyddiwr. | Wrth gyhoeddi'r Cynllun Iaith diwygiedig. | Uned Bolisi. | Wedi'i gwblhau. |
| Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd | Darparu Canllaw Cyfarfodydd Dwyieithog<br><br>Darparu hyfforddiant ar egwyddorion y Canllaw ar gyfer Cadeiryddion | 1/4/12<br><br>1/9/12 | Uned Bolisi<br><br>Adnoddau Dynol | Gwaith wedi ei gychwyn.<br><br>Canllaw Cyfarfodydd Dwyieithog ar fewnrwyd y Cyngor.<br><br>Bydd y Canllaw yn cael ei rannu yn ystod Anwytho'r Aelodau Etholedig newydd.<br><br>Cynllun Cyfieithu Cymunedol yn cyfrannu at y nod hwn ar lefel cymunedol |
| Byddwn yn monitro ansawdd deunydd ysgrifenedig a gynhyrchir. | Darparu gwasanaeth golygu gwaith trwy'r Adain Gyfieithu | Parhaus | Adain Gyfieithu | Parhaus. |
| Byddwn yn monitro ansawdd y gwasanaeth a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg | Comisiynu hapwiriad o ansawdd gwasanaethau<br><br>Derbyn adroddiadau gwasanaeth ar y defnydd o'r Gymraeg | Yn ystod 2013 os yw arian yn caniatáu (cynhaliwyd y diwethaf yn 2010)<br><br>Blynyddol | Comisiynu ymgynghorydd allanol i ymgymryd â'r gwaith.<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi | Hyn wedi digwydd fel rhan o'r Arolwg Dinasyddion a gynhaliwyd yn ystod Mawrth 2012.<br><br>Mae cais am ddiweddariad cynnydd ar y Cynlluniau Gweithredu wedi'i gyflwyno i'r gwasanaethau. |

## Wyneb cyhoeddus y Cyngor

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/14 |
|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy dechnoleg gwybodaeth. | Ffurflenni cais am swyddi ar gael ar y lein | Gorffennaf/Awst, 2012 | Adain Adnoddau Dynol/Rheolwr y Wefan | Gwaith o fewn targed. |
| | System democratiaeth newydd ar gael ar y wefan gyda gwybodaeth am Aelodau Etholedig, cofnodion, ymgynghoriadau dwyieithog ac e-petisiwn. | Gorffennaf/Awst, 2012 | Adain Technoleg Gwybodaeth | Gwaith o fewn targed. |
| | Portal mynediad newydd i denantiaid tai i'w galluogi i wneud apwyntiad gyda'r Cyngor a chofnodi ceisiadau cynnal a chadw (a dilyn cynnydd) ar y lein. | Ebrill, 2013 | Adain Technoleg Gwybodaeth | Bydd ar gael dros yr haf (Bydd tenantiaid hefyd yn gallu gweld balans eu cyfrif rhent drwy'r portal newydd) |
| | Sicrhau fod polisi 'Twitter' mewn lle. | Rhagfyr, 2012 | Adain Technoleg Gwybodaeth | Gwaith o fewn targed. |
| | Sefydlu Fforwm Twristiaeth | Ebrill, 2012 | Adain Technoleg Gwybodaeth | Hyn yn digwydd. |
| Byddwn yn parhau i sicrhau fod holl arwyddion y Cyngor yn gwbl ddwyieithog | Byddwn yn parhau i weithredu'r drefn bresennol | Anelu at 100% cydymffurfiaeth | Gwasanaeth Priffyrdd | Cyflawni hyn. |
| | Cyhoeddi rhestr enwau lleoedd ar wefan y Cyngor | Ebrill, 2012 | Uned Bolisi/Gwasanaeth Priffyrdd | Rhestr wedi'i chyflwyno i'r Grŵp Tasg Iaith ar 22 Mai 2012. |

## Gweithredu ac arolygu'r Cynllun

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/13 |
|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor | Cryfhau ein trefniadau monitro sgiliau ieithyddol staff fesul adran, gradd a gweithle gyda chefnogaeth meddalwedd Northgate trwy: | Yn flynyddol | Penaethiaid Gwasanaeth | |
| | Ddiweddaru'r Awdit Sgiliau drwy'r broses werthuso | Rhagfyr, 2011 ac yna'n flynyddol. | Penaethiaid Gwasanaeth | Hyn wedi digwydd yn Rhagfyr, 2011. |
| | Gynnal Awdit Swyddi | Cychwyn y broses Rhagfyr, 2011 a chwblhau erbyn diwedd Mawrth, 2012 | Penaethiaid Gwasanaeth | Dynodiad iaith swyddi ar gael ac yn parhau i gael eu rhoi ar y system gyfrifiadurol Adnoddau Dynol/ Cyflogau. |
| | Gymharu anghenion sgiliau gyda'r sgiliau sydd ar gael | Ebrill-Mai, 2012 | Penaethiaid Gwasanaeth | System werthuso swyddi newydd yn cyfarch y rhain. Gweler cynnydd dan 4.2. |
| | Cryfhau sgiliau trwy adnabod anghenion hyfforddiant a monitro cynnydd staff yn erbyn targedau | Mehefin-Awst, 2012 (cwblhau'r gwaith) | Penaethiaid Gwasanaeth | |
| Byddwn yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff | Darperir gwersi yn flynyddol trwy'r Adain Adnoddau Dynol | Adroddir ar y nifer sy'n mynychu hyfforddiant yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg | Adain Adnoddau Dynol | Hyn wedi digwydd. |

## Atodiad 1 – Amserlen a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith (2011-14)

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/13 |
|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith | Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r pecyn anwytho i staff newydd<br><br>Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff y Canolfannau Hamdden fel rhan o'r Cynllun Gweithleoedd Dwyieithog a noddir gan Fwrdd yr Iaith.<br><br>Darparu modiwl ar y Gymraeg i staff ar y fewnrwyd fel rhan o'r pecyn e ddysgu ar Gydraddoldeb | Cynhelir y sesiynau unwaith y mis (yn ddibynnol ar niferoedd)<br><br>Tachwedd-Rhagfyr, 2012<br><br>Ebrill, 2012 | Adain Adnoddau Dynol<br><br>Ar y cyd gyda 3 Cyngor Sir arall.<br><br>Adain Adnoddau Dynol. | Hyn yn digwydd yn rheolaidd.<br><br>Cyngor wedi cymryd rhan yn y Cynllun.<br><br>Trwydded y meddalwedd heb ei adnewyddu oherwydd y gost. Ystyried opsiynau eraill. |
| Byddwn yn sicrhau fod cwynion yn cael eu hymdrin â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor Sir | Ymgorffori'r iaith Gymraeg i'r model corfforaethol 'Pryderon a Chwynion' fel bod modd datrys achosion cyn iddynt fynd yn rhy ddyrys. | Model yn cael ei gyflwyno ar ôl etholiad lleol 2012 | Swyddog Cwynion Corfforaethol | Gweler 3.2 yn yr adroddiad monitro. |
| Byddwn yn sicrhau ein bod yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion y Cynllun Iaith | Cylch Gorchwyl y Grŵp Tasg Iaith wedi 'i adolygu i fonitro cynnydd ac adnabod risgiau. | Cyfarfodydd chwarterol. Derbyn ystadegau ar benodiadau i swyddi yn chwarterol.<br>Adrodd ar unrhyw risgiau neu fylchau mewn perfformiad i sylw'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol i'w craffu'n ymhellach fel bo'r angen. | Uned Bolisi yn cydlynu. | Hyn yn digwydd. |

## Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth – Gwasanaeth Ieuenctid

Mewn ymateb i'r cwestiynau y gofynnwyd, gallwn adrodd fel a ganlyn o ran 2013/14:

### 1. Darpariaeth

Darperir y gwasanaeth ar lefel (iii) – darpariaeth gynhwysfawr.

| | |
|---|---|
| Nifer o Glybiau Ieuenctid lle mae'r staff i gyd yn rhugl yn y Gymraeg, a'r gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog | 27 clwb |
| Nifer o Glybiau Ieuenctid lle mae o leiaf un aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg, a'r lleill yn Gymraeg ail iaith. | 3 chlwb |
| Nifer o Glybiau Ieuenctid lle mae'r staff i gyd yn Gymraeg ail-iaith | 0 |
| Nifer o Glybiau lle mae o leiaf un aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg bob nos. | 30 allan o 30 clwb |
| Cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i gynnal rhwydwaith o glybiau Cymraeg ar draws yr ynys, ar gyfer plant ac ieuenctid. | 6 clwb C Ff I Urdd – 13 darpariaeth cymunedol yn cynnwys Aelwydydd, Uwch Adrannau ac Adrannau. Gweithgarwch mewn 48 allan o'r 53 Ysgol. |
| Cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i gynnal rhaglen eang o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys Eisteddfodau, Chwaraeon, Cystadlaethau Adloniant, Siarad Cyhoeddus, Rali Weithgareddau, Cystadlaethau Barnu Stoc. Darperir rhaglen eang o hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer yr holl gystadlaethau gan y 2 Fudiad. . Mae'r mwyafrif o'r gweithgareddau yn arwain at gyfle i gystadlu ar lefel Cenedlaethol yn y Gymraeg. Hefyd, mae'r Urdd a'r Ffermwyr Ieuainc wedi cynnig amrediad o gyrsiau i bobl ifanc sydd wedi arwain at achrediadau cenedlaethol a lleol. | |
| Gwasanaeth Bws All-ymestyn ar y cyd hefo Mudiadau Gwirfoddol yn gwbl ddwyieithog. | 3 neu 4 noson yr wythnos |
| Prosiect Fforymau Ieuenctid (Partneriaeth Plant ac Ieuenctid a Lleisiau Lleol - Medrwn Môn). Cynhelir 5 Fforwm Dalgylch, un Fforwm Sirol, a nifer o weithgareddau tasg a gorffen eraill.<br><br>Yn ychwanegol mae gan yr Urdd Fforwm Ieuenctid, a'r Ffermwyr Ifanc wrthi'n ail-sefydlu. | 6 Fforwm Ieuenctid<br><br>2 Fforwm Ieuenctid |
| Canolfan Wobr Dug Caeredin - 8 | 7 yn ddwyieithog |
| Grwpiau ennill achrediadau mewn Cynlluniau Cyrhaeddiad Ieuenctid (ASDAN), Agored Cymru | 15 grŵp |

| | |
|---|---|
| Apwyntiwyd Gweithiwr Ieuenctid i weithio ym mhob Ysgol, i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddadrithio hefo addysg ffurfiol. Cynigiwyd amrediad o gyrsiau, a thrwy weithio hefo Urdd Gobaith Cymru, cynigiwyd hyfforddiant eang ym maes Gweithgareddau Awyr Agored – maes lle yn draddodiadol mae siaradwyr Cymraeg sy'n gallu cefnogi'r math yma o weithgareddau'n brin. | 4 allan o'r 5 Ysgol uwchradd a'u dalgylchoedd yn cynnig gwasanaeth Cymraeg |

2. **Cydweithio â phartneriaid**

Mae yna Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i gynnig clybiau a gweithgareddau Cymraeg ar lefel ardal, sir a chenedlaethol.

Mae'r Urdd wedi gweithio'n galed i ddatblygu eu Rhaglen Hyfforddiant i gynnig amrediad o gyrsiau achrededig i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys modiwlau cyrsiau i Arweinyddion Iau; Achrediadau Canŵio; Cymorth Cyntaf, a Chynhyrchu Fideo Digidol. Maent hefyd wedi cynnal cyrsiau sgiliau i Arweinyddion i fedru arwain gwaith hefo grwpiau o ieuenctid. Mae hyn yn ychwanegol at y gweithgaredd eang sy'n digwydd yn flynyddol i baratoi plant ac ieuenctid at yr Eisteddfodau Cylch, Sirol a Chenedlaethol.

Darperir rhaglenni safonol gan y Clybiau Ffermwyr Ieuainc drwy gydol y flwyddyn yn y 6 chlwb, a rhaglen sirol eang o weithgareddau amrywiol. Darperir hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg gan y mudiad ar gyfer swyddogion, ac mae'r clybiau a'r Ffederasiwn Sirol yn cynnig hyfforddiant mewn meysydd mor eang â Barnu Stoc, Siarad Cyhoeddus, Darllen , Adloniant a Pherfformio. Ehangwyd eu rhaglen eleni i gynnwys Diwrnod Gwaith Maes.

Mae gan yr Urdd Fforwm Ieuenctid bywiog iawn, ac mae'r Ffermwyr Ieuainc yn y broses o ail-sefydlu Fforwm. Mae Llais NI bellach yn cyd-weithio hefo prosiect Lleisiau Lleol (Menter Môn) i ddatblygu sgiliau democratiaeth ymysg pobl ifanc e.e. Cynhaliwyd 'Hawl i Holi' hefo Panel yn cynnwys Aelod Seneddol, Aelod Cynulliad, Arweinydd y Cyngor, a Phrif Weithredwr y Cyngor ar Ynys Ynni a'i oblygiadau i ieuenctid y sir. Gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog.

Yn ystod 2013-14 trosglwyddwyd Canolfan Ieuenctid Penmynydd i'r Urdd i ddatblygu Canolfan Ieuenctid Wledig i sefydlu canolfan i'r Mudiad ar yr ynys a'i hyrwyddo fel canolfan i ddatblygiadau Cymraeg a gwledig ar yr ynys. Mae'r adeilad wedi ei chymeryd drosodd ac yn cynnig cartref graenus i lu o weithgareddau a chyfarfodydd gan y Mudiad, ac maent hefyd yn cynnig llety i'r Clwb Ffermwyr Ieuainc lleol, a sawl chymdeithas i oedolion o'r gymuned leol, ac felly yn hyrwyddo a chadw diwylliant Cymraeg yn yr ardal. .

Cyd-weithiodd Gweithiwyr Datblygu Achredu'r Gwasanaeth Ieuenctid gyda'r Urdd, drwy'r Cynllun Potensial, a chynigiwyd cyfleoedd i bobl ifanc gwblhau cyrsiau fel Ysgrifennu Creadigol, a Chyrsiau Gweithgareddau Awyr Agored drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Urdd hefyd wedi bod yn allweddol i gefnogi'r gwaith i ddatblygu staff y gwasanaeth ieuenctid i fedru cynnig yr elfen alldeithiau o Wobr Dug Caeredin.

**Targedau aelodaeth**:

- Mae'r Urdd a'r Ffermwyr Ieuainc wedi gorgyrraedd eu targedau o ran cynyddu eu haelodaeth yn 2013-14, ac nid yw aelodaeth eleni yn cau gan y 2 fudiad tan ddiwedd yr haf.

**Cefnogi a chynnal Gweithgareddau Cymraeg:** Sicrhaodd Mudiad y Ffermwyr Ifanc grant drwy Gynllun Llwyddo'n Lleol i'w galluogi i gael Band Cymraeg yn Ddawns Rali'r clybiau eleni. Mynychwyd gan 500 o bobl ifanc. Hefyd cyd-weithwyd gyda Pwyllgor Apêl y Sioe Frenhinol Gymreig, a bu oddeutu 2,500 mewn rhaglen o amrywiol weithgareddau Cymraeg yn ystod gwanwyn, haf a hydref 2013.

3. **Sgiliau Staff**

**Recriwtio Staff - Proffil Staff Gwasanaeth Ieuenctid**

| | **Staff Llawn-amser** | **Staff Rhan-amser** |
|---|---|---|
| Staff Rhugl eu Cymraeg | 11 | 58 |
| Staff Cymraeg Ail-iaith | 2 | 14 |
| Staff Di-Gymraeg | 0 | 1 |

Swyddi Llawn-amser - Cymraeg yn hanfodol. Rhyddheir staff sy'n dymuno i fynychu cyrsiau Gloywi Iaith yn ystod eu hamser gwaith, er mwyn gwella eu sgiliau i ddefnyddio'r iaith. Mae pob gohebiaeth yn mynd allan yn ddwyieithog o'r brif swyddfa.

Staff Rhan-Amser - Cymraeg yn hanfodol mewn 27 clwb ieuenctid, ac yn ddymunol yn y 3 arall. Yn y clybiau lle bo'r Gymraeg yn ddymunol, sicrheir bod o leiaf un aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg. Penderfynir ar yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol yn ôl y ganran o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal.

Disgwylir i bob clwb ddilyn y Canllawiau Iaith Gymraeg i glybiau, gyflwynwyd yn y Seminar Hyfforddiant yn 2011. Mae staff bugeilio yn monitro i sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu ym mhob clwb. Dilynir hyn gyda hyfforddiant pellach os bydd angen yn cael ei adnabod yn y Cyfarfodydd Gwerthuso yn ystod Ebrill-Gorffennaf.

Sicrheir wrth gyfweld staff newydd fod gan bob aelod o staff ewyllys da tuag at yr iaith Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn monitro'n flynyddol faint o aelodau sy'n nodi eu bod yn Gymraeg, hefo rhywfaint o sgiliau Cymraeg, ac yn ddi-Gymraeg.

4. **Cyllid**

| Adran | Mudiad | Cytundeb | Swm | Hyd y cytundeb | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant o gyllideb craidd Ieuenctid | Yr Urdd | Cytundeb Lefel Gwasanaeth | £20,380 | Grant 2013/14 2013/14 | Wedi ei gadw 'run fath am 2014/15 |
| Grant o gyllideb craidd Ieuenctid | Federasiwn Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | CLG | £20,380 | Grant 2013-14 | Wedi ei gadw run fath am 2014-15 |
| PPI | Llais Ni | CLG | £12,200 | Grant 2013-14 | Datblygu Cyfranogiad Plant, Ieuenctid a'u teuluoedd drwy **Llais Ni.** |
| Lleisiau Lleol (grant loteri) | Llais Ni | CLG hefo Medrwn Môn | £22,500 | Grant 2013-17 | Datblygu sgiliau democratiaeth pobl ifanc a phlant drwy **Llais Ni.** |
| Grant Teuluoedd yn Gyntaf | Gwas Ieuenctid a'r Groes Goch | CLG | £50,000 | I'w adolygu diwedd Medi 2014. | Darparu Gwasanaeth All-ymestyn dwyieithog |

Gweithredir y Gwasanaeth Ieuenctid yn gwbl ddwyieithog, felly mae costau hyn yn rhan o weinyddiad sylfaenol hanfodol y Cyngor (Cyllideb yn cynnwys grantiau allanol oddeutu £600k).

5. **Ymgynghori**

Ymgynghorwyd gyda staff yn gyson yn ystod cefnogaeth fugeiliol i sicrhau eu bod yn dilyn Canllawiau Iaith y Gwasanaeth.

## Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth – y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc

Mewn ymateb i'r cwestiynau y gofynnwyd, gallwn adrodd fel a ganlyn o ran 2013/14:

**Sut ydych chi fel awdurdod lleol yn sicrhau bod aelodau eich Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn cydymffurfio â gofynion eich Cynllun Iaith Gymraeg?**

Nid yw Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Môn yn bodoli bellach. Mae'r gwaith cyflawni yn cael ei arwain gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol.

Mae monitro chwarterol yn gofyn am wybodaeth ieithyddol gan y darparwyr.

**Sut ydych chi'n asesu i ba raddau mae'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a gynigir drwy'r Bartneriaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc y sir?**

Mae cytundebau blynyddol yn sicrhau bod pob gwasanaeth sydd yn cael ei ariannu trwy'r grant yn wasanaeth dwyieithog. Mae monitro chwarterol ynglŷn â gofynion ieithyddol y defnyddiwr gwasanaeth, hy. Beth oedd dewis iaith y defnyddiwr.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **9 MEHEFIN 2014** |
| **PWNC:** | **CYMORTH I BENSIYNWYR GYDA'R DRETH GYNGOR 2014/2015** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES (AELOD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT (PENNAETH SWYDDOGAETH – ADNODDAU A'R SWYDDOG 151 DROS DRO)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GERAINT H. JONES – RHEOLWR REFENIW A BUDD-DALIADAU**<br>**2651** |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Cymeradwyo cynllun ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn i helpu pensiynwyr leihau eu Treth Gyngor ar gyfer 2014/15 yn unol â'r meini prawf cymhwysedd a amlinellir yn y cynllun yn Atodiad A. Bydd y cynllun a amlinellir yn ymestyn y Grant Pensiynwyr gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2014/2015 yn unig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diddymu'r Grant Pensiynwyr ar gyfer 2014/2015 a blynyddoedd dilynol ac wedi dyrannu cyllid, o fewn y Grant Cymorth Refeniw, o £90k i'r Awdurdod Lleol ei wario fel y mae'n ei ddymuno. Ar gyfer 2013/14, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £4m i helpu pensiynwyr a oedd yn derbyn cymorth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor rhannol, hyd at uchafswm £100. Cafodd £83k ei wario yn Ynys Môn gyda £5k ychwanegol ar weinyddiaeth. Roedd y grant yn seiliedig ar brawf modd.

Yn ystod 2013/14, derbyniodd 960 pensiynwyr gymorth i ostwng eu Treth Gyngor dan y cynllun Grant Pensiynwyr, gyda 690 yn derbyn y swm uchaf a oedd ar gael sef £100.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eugwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau –

- Cynnwys y Grant Cymorth Refeniw ychwanegol yn y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor er mwyn lleihau'r diffyg ran cyllido'r cynllun hwnnw. Byddai hyn wedi gwneud i ffwrdd yn gyfan gwbl â'r Grant Pensiynwyr ychwanegol o 2014/2015;
- Peidio dyrannu'r cyfan o'r arian a drosglwyddwyd i'r Grant Cymorth Refeniw ar gyfer y Grant Pensiynwyr e.e. rhoi £50 ar y mwyaf a defnyddio'r balans sydd ar ôl i gefnogi strategaeth gyllidebol 2014 – 2015. Mae'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2014/ 2015 yn cynnwys darpariaeth o £400k i gwrdd â'r diffyg yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a £90k i gwrdd â chost y Grant Pensiynwyr. Fodd bynnag, nid oes ymrwymiad o 2015 – 2016 ymlaen mewn perthynas â'r Grant Pensiynwyr.

- A fyddai modd defnyddio'r £90k i bwrpas arall, e.e. ychwanegu at y cynllun Taliadau Tai Dewisol neu sefydlu cronfa galedi benodol o 2015/2016 ymlaen i dalu costau Treth Gyngor ychwanegol yr aelwydydd hynny y mae eu Treth Gyngor ar hyn o bryd yn cael ei thalu'n llawn dan y cynllun cyfredol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae £90k yng nghyllideb 2014-15 i gwrdd â chost y Cynllun Grant Pensiynwyr.

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad i sefydlu beth fydd bwriadau awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer 2014/2015 ac o 1 Ebrill 2015 ymlaen o ran defnyddio'r hen gyllideb Grant Pensiynwyr – hyd yma, mae 11 o awdurdodau Cymru wedi ymateb:-

  1 heb benderfynu eto;
  7 am ddefnyddio Cynllun Llywodraeth Cymru 2013/2014 yn 2014/2015;
  1 am ddefnyddio'n rhannol Gynllun Llywodraeth Cymru 2013/2014 yn 2014/2015 a defnyddio'r balans i gefnogi strategaeth gyllidebol 2014/2015;
  2 yn ei ddefnyddio tuag at y diffyg yn y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a gwneud i ffwrdd â'r Cynllun Grant Pensiynwyr yn gyfan gwbl.

Dywedodd yr 11 awdurdod nad ydynt hyd yma wedi gwneud penderfyniad ynghylch eu cynlluniau ar gyfer 1 Ebrill 2015 ymlaen.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Ers Ebrill 2009 hyd at fis Mawrth 2013, bu'r Awdurdod hwn, yn unol â chynllun a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 6 Hydref 2009, yn defnyddio cymorth grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi a rhoi cymorth ychwanegol i bensiynwyr dalu eu costau Treth Gyngor. Gyda chyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn Ebrill 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei gynllun grant ei hun ar gyfer Cymru gyfan, grant y mae awdurdodau lleol yn ei weinyddu ar ei ran. O Ebrill 2014, rhoes Llywodraeth Cymru'r gorau i'r cynllun gan ganiatáu i Awdurdodau wario'r arian fel yr oeddynt yn dymuno.

Yn y cyfarfod ar 27 Chwefror 2014, cymeradwyodd y Cyngor Sir, fel rhan o'i strategaeth gyllidebol, gyllideb o £90k ar gyfer Cynllun Grant ar gyfer y Dreth Gyngor i Bensiynwyr i'w defnyddio yn 2014/2015.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith fabwysiadu cynllun ar gyfer 2014/2015.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r cynllun yn gyson â dymuniadau'r Cyngor Sir yn ei strategaeth gyllidebol ar gyfer 2014/2015.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Mae £90k wedi'i gynnwys yng nghyllideb yr Awdurdod am 2014/2015 i dalu costau'r cynllun arfaethedig. Ni fyddai'r cynllun yn costio mwy na £90k.

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Grant Treth Gyngor i Bensiynwyr 2014/ 2015 | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Setliad Grant Cymorth Refeniw 2014/2015 | | |

**Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Grantiau Treth Gyngor i Bensiynwyr 2014/2015**

Pwrpas y Cynllun Grant Pensiynwyr yw dyrannu swm o arian i bobl sy'n gymwys ar Ynys Môn er mwyn gostwng y Dreth Gyngor y mae'n rhaid iddynt ei thalu.

Y meini prawf ar gyfer dyrannu grant:

**1.** Rhaid i berson fod yn 60 oed i dderbyn cymorth. Y dyddiad ar gyfer penderfynu ynghylch cymhwyster fydd 30 Mehefin 2014. Dylai'r person cymwys neu bartner y person cymwys fod yn 60 oed neu'n hŷn ar y dyddiad penodedig.

**2.** Os yw'r person yn bodloni'r meini prawf ar 30 Mehefin 2014, yna ni fydd angen cynnal unrhyw asesiad pellach o gymhwysedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/2015.

**3.** Bydd pobl gymwys yn cael Gostyngiad rhannol yn eu Treth Gyngor ond nid y lefel uchaf o gymorth fel yr oedd ar y dyddiad cymhwyso.

**4.** Bydd pob person cymwys yn derbyn o leiaf £5.

**5.** I bwrpas rhoi cymorth, caiff yr hawl i daliad ei weithio allan fel a ganlyn:-

Y Dreth Gyngor gros a godwyd ar gyfer 2014/ 2015

**LLAI**

**a)** unrhyw ddisgowntiau neu ostyngiadau a roddwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn;

**b)** unrhyw Ostyngiad yn y Dreth Gyngor a roddwyd i bobl gymwys.

**6.** Ni fydd unigolyn ond yn derbyn cymorth unwaith yn ystod y flwyddyn ariannol a chyfyngir cymorth i un taliad fesul aelwyd.

**7.** Dyrennir symiau o hyd at £100 a bydd hynny'n berthnasol ar draws holl ardal Cyngor Sir Ynys Môn.

**8.** Petai'r ddyled net yn is na'r uchafswm, yna ni fydd y credyd a drosglwyddir i'r cyfrif Dreth Gyngor yn uwch na'r ddyled net.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **9 MEHEFIN 2014** |
| **PWNC:** | **CANLYNIADAU CYLLIDEB GYFALAF 2013/14** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **BEN DAVIES**<br>**01248 752610**<br>**BenDavies@anglesey.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

I nodi'r adroddiad.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Dim yn berthnasol.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Caniatáu i'r Pwyllgor Gwaith fod yn gyfrifol am fonitro'r gyllideb cyfalaf ar lefel gorfforaethol.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Dim yn berthnasol.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Dim yn berthnasol.

| **DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A : Canlyniadau Cyllideb Cyfalaf 2013/14 (yn cynnwys Tabl A).

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Dim yn berthnasol.

**Atodiad A**

## CANLYNIADAU CYLLIDEB CYFALAF 2013/14

### 1. CEFNDIR

**1.1** Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd adroddiadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn y gyllideb gyfalaf ac unrhyw ganlyniadau ariannol. Yn yr adroddiad hwn, ceir gwybodaeth am y sefyllfa am y flwyddyn sydd newydd ddod i ben a dygir sylw at unrhyw broblemau y daethpwyd ar eu traws. Byddaf yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau o bwys i ganlyniadau terfynol y gyllideb gyfalaf, fel sy'n angenrheidiol, yn yr adroddiad priodol cyntaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Bydd yr adrannau perthnasol yn adrodd ar unrhyw brosiectau unigol yn unol â'r trefniadau arferol ar gyfer cyflwyno adroddiadau.

**1.2** Caiff gwariant mawr ar eitemau yn y gyllideb gyfalaf ei nodi isod:-

| Prosiectau Cyfalaf Mawr | Cyllido | Gwariant yn ystod y Flwyddyn £'000 | Gwariant Cynyddol £'000 | Cyfanswm Cyllideb y Prosiect £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol y Bont - adleoli | CSYM/LlC | 6,707 | 11,269 | 10,932 |
| Isadeiledd Strategol ar Ynys Môn – Safleoedd ac Adeiladau Llangefni a Mona | SCEC / LlC | 235 | 235 | 1,716 |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol Priffyrdd (LGBI) | LlC | 1,785 | 3,580 | 5,300 |
| Canolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig (CAGD) Penhesgyn | CSYM | 295 | 1,281 | 1,000 |
| Adfywio'r Tair Tref | CSYM / Cydgyfeiriant | 830 | 5,789 | 7,768 |
| Yr Amgylchedd Arfordirol | CSYM / Cydgyfeiriant | | | |
| Rhaglen Gwelliannau Mân-ddaliadau | CSYM | 683 | 4,712 | Arian wrth gefn |
| Cyflog Cyfartal 2013/14 | CSYM | 3,300 | 3,300 | 3,300 |

**1.3** Prosiectau a chynlluniau mawr a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn :-

**1.3.1** Ni chychwynnwyd ar unrhyw brosiectau neu gynlluniau mawr eleni.

**1.4** Prosiectau a chynlluniau mawr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn :-

**1.4.1** Cwblhawyd dwy brosiect mawr yn ystod y flwyddyn.

**1.4.2** Y cyntaf o'r rhain oedd cwblhau'r gwaith gwella yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig (CAGD) Penhesgyn. Fel yr adroddwyd eisoes, cwblhawyd y gwaith ar safle'r CAGD ac fe'i hagorwyd ym mis Gorffennaf. Fel yr adroddwyd eisoes hefyd, codwyd y gyllideb gychwynnol o £850k i £1m fel bod modd gwneud gwaith gwella ychwanegol. Bu'n rhaid gwario ychwaneg o arian yn ystod Chwarter 2 eleni gan olygu gorwariant o £0.3m ar y gyllideb o £1m. Gellir priodoli rhan o'r gorwariant i'r dyluniadau/cynlluniau cychwynnol ac mae'r gwasanaeth wrthi'n ymchwilio i opsiynau i leihau'r gost derfynol i'r Awdurdod. Comisiynwyd gwaith ychwanegol hefyd sef adeiladu slab ychwanegol ar gyfer storio gwastraff gwyrdd a gwaith concritio pellach ar gyfer y ffyrdd mynediad a pharcio.

**1.4.3** Yr ail brosiect oedd codi adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Bont. Fel yr adroddwyd eisoes, roedd y gwaith adeiladu ar ei hôl hi gan nifer o wythnosau. Cwblhawyd y gwaith ar yr ysgol yn gynnar yn ystod chwarter 4 ac ychydig iawn o wariant pellach a ddisgwylir. Fel y dywedwyd eisoes, cafwyd gorwariant o £0.3m ar y prosiect. Mae'r grant LlC wedi cael ei hawlio'n llawn.

**1.5** Gwaith sy'n mynd rhagddo ar brosiectau a chynlluniau mawr a gychwynnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac a fydd yn parhau y tu draw i 2013/14:-

**1.5.1** Cychwynnwyd gwaith ar nifer o brosiectau a chynlluniau cyn eleni a bydd y gwaith hwn yn parhau y tu draw i 2013/14.

**1.5.2** Bellach, cwblhawyd y bedwaredd flwyddyn o'r rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau (wedi ei gyllido o'r derbyniadau cyfalaf a glustnodwyd yn benodol i'r pwrpas hwnnw yn dilyn gwerthu mân-ddaliadau). Adolygwyd a diwygiwyd y rhaglen waith yn ystod y flwyddyn er mwyn canolbwyntio ar waith blaenoriaeth uchel. Roedd hynny oherwydd y dirwasgiad yn y farchnad oedd yn golygu bod y gwariant wedi bod yn uwch na'r derbyniadau cyfalaf a gafwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'r rhaglen yn parhau i fod ar y blaen i'r derbyniadau cyfalaf ac ar 31 Mawrth 2014, roedd diffyg o £2,051k. Yn y cyfarfod o'r pwyllgor hwn ym mis Chwefror, gofynnwyd am adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol ar y rhaglen wella a'r modd yr oeddid yn rhoi sylw i'r diffyg. Cyflwynwyd yr adroddiad hwnnw i'r pwyllgor hwn ym mis Mawrth. Rhagwelir y bydd y newidiadau i'r rhaglen a gwerthu mân-ddaliadau yn golygu fod y rhaglen yn dychwelyd i sefyllfa ariannol gytbwys/gwarged yn ystod y flwyddyn nesaf.

**1.5.3** Roedd y Cynllun Adfywio'r Tair Tref (Adnewyddiad Ffisegol) sy'n cael ei gyllido o arian Cydgyfeiriant Ewrop wedi'i gwblhau i bob pwrpas erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd rhan helaeth o'r gyllideb yn gysylltiedig â phrosiectau Menter Treftadaeth Treflun Caergybi a rhoddi grantiau i berchenogion eiddo preifat i adnewyddu eiddo masnachol a fflatiau ar ail lawr yng nghanol y dref. Roedd y cyfan o'r grant a oedd ar gael wedi ei gynnig erbyn diwedd y flwyddyn a disgwylir i'r gwaith gael ei wneud ac i'r arian gael ei hawlio erbyn diwedd 2014.

**1.5.4** Dywedwyd eisoes bod y Prosiect Amgylchedd Arfordirol wedi cael ei ymestyn ac y rhyddhawyd arian ychwanegol yn ystod 2013/14. Cychwynnodd gwaith ar y prosiect hwn tua diwedd y flwyddyn a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau yn gynnar yn 2015.

**1.5.5** Mae ail flwyddyn y Cynllun tair mlynedd Menter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Priffyrdd bellach wedi'i chwblhau. Bydd cyfanswm o £5.3m wedi cael ei fuddsoddi gan olygu y bydd asedau priffyrdd yr Awdurdod yn fwy ymarferol ac mewn cyflwr gwell. Hyd yma, mae'r gwaith wedi glynu wrth yr amserlen ac wedi cydymffurfio gyda'r cynlluniau a'r achosion busnes a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

## 2. <u>GWARIANT YN YSTOD Y FLWYDDYN</u>

**2.1** Mae'r canlyniadau amodol yn £24.1m. Mae hyn yn is na'r flwyddyn flaenorol (£25.4m).

**2.1.1** Bu gostyngiad yn y gwariant blwyddyn ar flwyddyn oherwydd:

**(i)** llai o weithgaredd ar rai prosiectau/cynlluniau a oedd yn mynd rhagddynt, gan gynnwys: **(a)** gwaith CRT (£5.5m yn llai na 2012/13) yn bennaf oherwydd y rhaglen SATC a gwblhawyd yn ystod trydydd chwarter 2012/13, a **(b)** mân-waith ar ysgolion (£0.6m), CAGD Penhesgyn (£0.7m), y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau (£0.4m), Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn (£0.4m), cynlluniau eraill (£1.1m);

**(ii)** cynlluniau a gwblhawyd yn 2012/13 megis Gwaith Strydlun ac Amgylcheddol yn 2012/13 (£0.4m) a ariannwyd gan LLC, y gwaith a ariannwyd gan LlC i wella'r canolfanau hamdden (a gostiodd £0.8m yn 2012/13), cynlluniau eraill (£0.3m).

**2.1.2** Cafodd hyn ei wrthbwyso i raddau gan y cynnydd yn y gwariant o ganlyniad i:-

**(i)** eitemau newydd megis hawliadau cyflog cyfartal (£3.3m) a'r grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol a ariannwyd gan LlC.

**(ii)** gweithgaredd cynyddol ar brosiectau a chynlluniau a oedd yn mynd rhagddynt megis: grantiau tai sector preifat (£0.7m), prosiect adleoli Ysgol y Bont (£2.4m) a ariannwyd gan LlC a phrosiectau a chynlluniau eraill (£1.9m).

**2.2** Cyfanswm y gyllideb a oedd ar gael ar gyfer ei gwario yn 2013/14 oedd £28.8m. Yn ogystal, mae rhywfaint o gronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu. Mae rhan sylweddol o'r gyllideb gyfalaf graidd yn cael ei chyllido o adnoddau y gellir eu dwyn ymlaen.

**2.3** Gellir crynhoi'r gwariant fesul rhaglen fel a ganlyn:-

| | CYFFREDINOL | | TAI (CRT) | | TAI (PREIFAT) | | CYFANSWM | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % | £000 | % | £000 | % |
| Gwreiddiol | 15,040 | | 4,948 | | 900 | | 20,888 | |
| Dygwyd ymlaen | 2,394 | | 0 | | 1,227 | | 3,621 | |
| Newidiadau yn y Flwyddyn | 3,649 | | 0 | | 654 | | 4,303 | |
| Cyfanswm ar gael | 21,083 | | 4,948 | | 2,781 | | 28,812 | |
| Gwariant | 19,243 | 91 | 3,169 | 64 | 1,693 | 61 | 24,105 | 84 |
| Llithriad | 1,840 | 9 | 1,779 | 36 | 1,088 | 39 | 4,707 | 16 |

**2.3.1** Dengys hyn bod £28.8m ar gael ac wedi ei neilltuo yn 2013/14, £20.9m o'r gyllideb wreiddiol, £3.6m pellach wedi ei ddwyn ymlaen a £4.3m net yn codi yn y flwyddyn.

**2.4** Yn gyffredinol, disgwylir y bydd prosiectau a chyllidebau gwerth £2.2m i gyd yn trosglwyddo i 2014/15, ynghyd â £3.3m mewn arian wrth gefn heb ei dyrannu.

**2.5** Y gwariant cyffelyb ar gyfer 2012/13 oedd:-

| | CYFFREDINOL | | TAI (CRT) | | TAI (PREIFAT) | | CYFANSWM | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % | £000 | % | £000 | % |
| Cyfanswm ar gael | 19,705 | | 9,800 | | 2,315 | | 31,820 | |
| Gwariant | 15,589 | 87 | 8,751 | 89 | 1,088 | 47 | 25,428 | 80 |
| Llithriad | 4,116 | 21 | 1,049 | 11 | 1,227 | 53 | 6,392 | 20 |

**2.6** Gorwariwyd ar nifer fechan o brosiectau yn ystod y flwyddyn a gyllidwyd o gyllidebau refeniw gwasanaeth.

**2.7** Y risgiau mwyaf sylweddol, fel yr adroddwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, oedd adleoli Ysgol y Bont, y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau a'r cyfrif terfynol ar gyfer y gwaith Amgylchedd Arfordirol ar Bier Biwmares a ariannwyd o gyllid Cydgyfeiriant. Cwblhawyd Ysgol y Bont yn ystod y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf o'r arian wedi ei wario a gorwariant o £0.3m ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r grant LIC wedi cael ei hawlio'n llawn. Mae'r gwaith ar wella'r mân-ddaliadau'n mynd rhagddo, fel a nodwyd yn rhan 1.5.2 yr adroddiad. Mae'r gwaith cywiro ar Bier Biwmares bellach wedi'i gwblhau a disgwylir i'r cyfrif terfynol gael ei ryddhau yn y dyfodol agos. Dywedwyd eisoes fod trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch gwerth gwirioneddol y gwaith a wnaed dan y contract; efallai y bydd raid i'r Cyngor dalu swm ychwanegol yn unol â chontract y gwaith ond ni fedrir asesu gydag unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd faint fydd y swm hwnnw.

## 3. ADNODDAU CYFALAF

### 3.1 GRANTIAU CYFALAF

**3.1.1** Mewn adroddiadau blaenorol, dywedwyd y byddai'n rhaid, yn achos rhai o'r prosiectau sy'n derbyn cymorth grant, gwario'r gyllideb gyfan erbyn diwedd y flwyddyn neu wynebu'r posibilrwydd o golli adnoddau. Yn unol â ffigyrau canlyniadau amodol, dyma'r sefyllfa mewn perthynas â'r cynlluniau a'r prosiectau hyn:-

**Cyllid Pontio Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain (Haen 3) – Adleoli Ysgol y Bont**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Dechrau'n Deg**
Wedi gwario bron y cyfan o'r arian yn ystod y flwyddyn (99% ohono)

**Dysgu yn y Gymru Ddigidol**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn (estyniad)**
Dyraniad LIC ar gyfer y flwyddyn wedi ei wario'n llawn.

**Ffordd Gyswllt Llangefni (Rhan 1)**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Arwyddion ar gyfer y Parth Menter**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Grant Consortia Cludiant Rhanbarthol**
Wedi gwario bron y cyfan o'r arian yn ystod y flwyddyn. Y canlyniadau disgwyliedig wedi eu cyflawni ond wedi costio llai na'r amcangyfrif gwreiddiol.

**Menter Benthyca Llywodraeth Leol**
Wedi gwario bron y cyfan o'r arian yn y flwyddyn, rhywfaint o lithriad i 2014/15 ond ni ddisgwylir i hyn gael effaith ar hawl i grantiau.

**Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Grant Rheoli Gwastraff mewn modd Cynaliadwy**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi**
Bron y cyfan o'r arian wedi'i wario yn ystod y flwyddyn (96%).

**Adnewyddu Cartrefi Gwag**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

### 3.2 DERBYNIADAU CYFALAF

**3.2.1** Dangosir y derbyniadau gwirioneddol dros dro ar sail 'ddefnyddiadwy' yn y tabl isod:-

| Derbyniadau Cyfalaf (Defnyddiadwy)* | | | | Derbyniadau y cyllidebwyd ar eu cyfer £000 | Derbyniadau Fel ar Ch4 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai: | Cyfrif Refeniw Tai | Gwerthu dan Hawl i Brynu | | 75 | 47 |
| | | Gwerthu Tir | | 500 | 34 |
| | Tai Sector Preifat | Gwerthu Plotiau<br>Taliadau a Ad-dalwyd<br>Grantiau a Ad-dalwyd | } | 150 | 60 |
| Eraill: | Mân-ddaliadau** | | | 250 | 221 |
| | Cyffredinol a Diwydiannol | | | 600 | 567 |

** Dim yn cynnwys cyfraniadau cyfalaf*
*** Incwm y mân-ddaliadau yn erbyn y gyllideb arwyddol*

**3.2.2** Mae derbyniadau cyfalaf CRT yn is na'r swm y cyllidebwyd ar eu cyfer, yn bennaf oherwydd na fu modd sicrhau'r £0.5m disgwyliedig o werthu tir. Fodd bynnag, mae llithriad yn y rhaglen yn gwneud iawn am y diffyg hwn.

**3.2.3** Roedd y derbyniadau cyfalaf ar gyfer tai sector preifat yn is na'r gyllideb ond nid yw'r ffigwr yn sylweddol. Mae'r derbyniadau hyn yn fwy heriol i'w darogan oherwydd cânt eu gyrru gan yr hyn a wneir gan y sawl sy'n derbyn yr arian.

**3.2.4** Mae'r derbyniadau a ddangosir yn erbyn y mân-ddaliadau wedi cael eu neilltuo'n benodol i gyllido gwaith gwella ar fân-ddaliadau'r Awdurdod. Fel yr adroddwyd yn rhan 1.5.2 yr adroddiad, mae'r gwariant yn uwch na'r derbyniadau cyfalaf ond disgwylir i'r derbyniadau ddal i fyny yn ystod y flwyddyn nesaf.

**3.2.5** Bu bron i'r derbyniadau cyfalaf cyffredinol a diwydiannol yng Nghronfa'r Cyngor gwrdd â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Dylid nodi fod darogan lefel ac amseriad derbyniadau cyfalaf yn parhau i fod yn her. Ar y sail hon, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2014/15 wedi tybio lefel y derbyniadau cyfalaf y bydd modd eu sicrhau a gellir adolygu'r sefyllfa hon wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

## 4. <u>ARIANNU</u>

**4.1** Ar adeg cynhyrchu'r adroddiad hwn, roedd cyllido'r rhaglen gyfalaf wrthi'n cael ei gwblhau a cheir cadarnhad ar y sefyllfa derfynol yn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2013/14.

**4.2** Sonnir am fenthyca mewn adroddiadau ar wahân ar Reoli Trysorlys. Aeddfedodd un benthyciad o £6.5m yn ystod y flwyddyn ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau oherwydd penderfynwyd, yn amodol ar adolygiad parhaus, y byddai mewnoli benthyciadau yn fwy buddiol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. O ganlyniad, roedd £89.6m o fenthyca allanol ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth 2013 : £96.1m). Roedd cyfradd y portffolio o ddyledion ar gyfartaledd yn 5.6% yn ystod y flwyddyn. Roedd yr angen o ran cyllido cyfalaf a ddygwyd ymlaen £10.3m islaw benthyciadau allanol (h.y. roedd £10.3m o'r benthyciadau wedi cael eu mewnoli). Mae'r opsiynau cyllido ar gyfer 2013/14 wrthi'n cael eu cwblhau a bydd raid ymestyn ymhellach yr angen i gyllido cyfalaf ac, o'r herwydd, raddfa'r benthyciadau mewnol.

## 5. ARIAN WRTH GEFN HEB EI DDYRANNU A LLITHRIAD

**5.1** Bydd yr arian wrth gefn heb ei ddyrannu yn llithro i 2014/15 ac yn dod yn:-

| | |
|---|---|
| • Astudiaethau Dichonoldeb | £0.5m |
| • Rhesymoli Asedau | £2.1m |
| • Arian wrth gefn ar gyfer Adfywio / cyllid cyfatebol | £0.2m |
| • Gwelliannau Hamdden | £0.2m |
| • Heb ei ddyrannu | £1.3m |

Nid yw'r elfen o'r arian wrth gefn benthyca di-gefnogaeth sydd heb ei ddefnyddio wedi ei ddwyn ymlaen.

**5.2** Gall y rhan fwyaf o'r llithriad ar gyllidebau cyfalaf cyffredinol (Cronfa'r Cyngor £1.2m a Chronfa Tai'r Cyngor £1.0m) drosglwyddo i'r flwyddyn gyfredol. Nid oes unrhyw lithriad yn erbyn y Cyfrif Refeniw Tai : bydd rhaglen 2014/15 yn cael ei hadolygu yn seiliedig ar ganlyniadau 2013/14.

## 6. EDRYCH YMLAEN

**6.1** Yr eitemau o bwys y dylid eu nodi yma yw:-

**6.2** Ysgolion yr Ugeinfed Ganrif ar Hugain. Mae dwy elfen i'w nodi mewn perthynas â'r rhaglen hon, sef yr Achos Strategol Amlinellol (ASA) ar gyfer y Cynlluniau ym Mandiau A – D a'r Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd.

**6.2.1** Roedd y cynllun Band A gwreiddiol yn cynnwys un cynllun ar gyfer ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi. Fel y dywedwyd eisoes, cymeradwywyd RhAS diwygiedig gan Lywodraeth Cymru. Mae'r RhAS diwygiedig yn cynnwys cynlluniau ychwanegol ac mae Band A yn awr yn cynnwys, ymysg pethau eraill, gynlluniau ar gyfer ardal Y Llannau. Bwriedir cyflwyno ASA diwygiedig ar gyfer cynllun Caergybi i LlC yr haf hwn a bydd y RhAS ar gyfer ardal Y Llannau'n cael ei gyflwyno i LlC yn ystod yr wythnosau nesaf.

**6.2.2** Adroddir ar wahân ar gynnydd mewn perthynas â'r ASA a bydd diweddariadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiadau chwarterol hyn fel sy'n briodol.

**6.3** Adroddwyd eisoes bod Partneriaethau Lleol yn gweithio gyda swyddogion i wneud gwaith gwerthuso opsiynau mewn perthynas â rhaglen y Cyngor i resymoli asedau. Darparwyd adroddiad ar y 'Gwerthusiad o'r Opsiynau ar gyfer Dulliau Cyflawni Posibl' yn gynharach eleni. Ers hynny, mae Partneriaeth Lleol wedi bod yn gwneud gwaith pellach i ddatblygu cynigion sydd wedi'u halinio gyda thrawsnewid gwasanaethau allweddol a'r anghenion cysylltiedig o ran asedau. Bwriedir y bydd y gwasanaethau perthnasol yn cyflwyno eu cynlluniau trawsnewid yn y man.

**6.4** Dywedwyd eisoes fod swyddogion yn gwneud gwaith cynllunio a rhagbaratoi ar Cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares gyda golwg ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru a fydd, os caiff ei gymeradwyo, angen elfen o gyllid cyfatebol. Mae'r gwasanaeth yn disgwyl canlyniad y fid gan LlC ac yn obeithiol iawn y bydd yn llwyddo.

**6.5** Fel y dywedwyd yn adroddiad chwarter 3, mae swyddogion wedi cyflwyno bid i SCEC am swm o £520k er mwyn cyflawni Rhan 2 Prosiect Safleoedd ac Adeiladau Llangefni a Mona. Mae'r ail ran o'r gwaith yn ymwneud ag adeiladu 3 o unedau "Ardderchog" BREEAM arall ar safle Pen yr Orsedd. Disgwylir canlyniad y fid yn yr wythnosau nesaf.

**6.6** I gloi ac fel y dywedwyd yn yr adroddiad ar chwarter tri, cyflwynodd y Cyngor Sir gynnig ail ran ar gyfer grant dan y Cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cymeradwyo'r fid a disgwylir y llythyr o gynnig. Mae'r cyllid yn dibynnu ar ffynonellau eraill o gyllid cyfatebol ac mae gwaith wrthi'n cael ei wneud ar hyn o bryd i sicrhau hynny, gan gynnwys cyflwyno bidiau i wahanol gyrff cyllido. Sefydlwyd bwrdd rhaglen ac mae rheolydd rhaglen wedi cael ei benodi i weithio ar y cynlluniau manwl a'r bidiau. Disgwylir am y llythyr o gynnig o grant gan LlC ond rhagwelir y bydd angen bod wedi hawlio £2m erbyn diwedd 2014/15. Adroddir ar gynnydd yn hyn o beth yn ystod y flwyddyn.

## Canlyniadau Cyllideb Cyfalaf 2013/14

| Prosiectau | Cyllideb 2013/14 £'000 | Llithriad 2012/13 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant £'000 | % | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai** | **6,995** | **1,227** | **8,182** | **4,862** | **59** | |
| Tai Cyngor | 4,948 | 0 | 4,948 | 3,169 | 64 | Yn gyffredinol, mae gwaith yn mynd yn ei flaen yn unol â'r disgwyl. Cafwyd cryn lithriad oherwydd amseriad cychwyn y gwaith a'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan rhai contractwyr apwyntiedig. |
| Preifat - Grantiau | 1,947 | 774 | 2,721 | 1,573 | 62 | Mae'r llithriad fel a ragwelwyd. Mae hyn oherwydd i LIC ryddhau cyllid ac i hwnnw gael ei ddefnyddio yn lle dyraniad cyllidebol cychwynnol yr Awdurdod. Y ddau grant oedd y Grant Adnewyddu Cartrefi Gweigion - llwyddwyd i wario'r swm cyfan o £160k yn ystod y flwyddyn. Y grant arall oedd y cynllun Troi Tai'n Gartrefi; roedd cyfanswm o £434k ar gael a llwyddwyd i wario cyfran helaeth ohono yn ystod y flwyddyn. |
| Tai Fforddiadwy | 60 | 453 | 513 | 120 | 23 | Fel y dywedwyd eisoes, roedd blaenoriaethau gwariant eraill yn cael eu hystyried ar y cyd gyda'r cyllid yr oedd ei angen ar gyfer y cynllun achub morgais/cynllun cymorth i brynu cartref, a fydd yn elwa i gyfraniad gan Gymdeithas Tai Eryri. Dyma oedd y sefyllfa drwy gydol y flwyddyn bron ac, o ganlyniad, mae llithriad i 2014/15. |
| **Addysg** | **6,870** | **2,012** | **8,882** | **8,461** | **95** | |
| Ail-leoli Ysgol y Bont | 4,500 | 1,868 | 6,368 | 6,707 | 105 | Fel y dywedwyd eisoes, roedd y gwaith adeiladu nifer o wythnosau ar ei hôl hi. Cwblhawyd y gwaith ar yr ysgol yn gynnar yn Chwarter 4 a rhagwelir mai ychydig iawn o wariant pellach fydd ei angen. Grant LIC wedi ei hawlio'n llawn. |
| Ysgolion y 21fed Ganrif Band A – Ysgol Gynradd Newydd yng Nghaergybi | 545 | 42 | 587 | 10 | 2 | Fel y dywedwyd eisoes, mae Achos Strategol Amlinellol (ASA) ar gyfer y Cynllun Band A (ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi) wedi ei ohirio am y tro fel y gellir gwneud gwaith ymchwil a gwerthuso'r opsiynau. Rhagwelir y bydd yr ASA yn cael ei gyflwyno i LIC yr haf hwn. |
| Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg 2013/14 | 535 | 0 | 535 | 527 | 98 | Cwblhawyd y gwaith yn unol â'r disgwyliadau. |
| Grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol 2013/14 | 590 | 0 | 590 | 614 | 104 | Roedd rhai o'r eitemau yr oedd eu hangen i gyflawni amcanion y prosiect yn ddrutach nag a ragwelwyd yn wreiddiol. |
| Addysg: Arall | 700 | 102 | 802 | 603 | 75 | Roedd y mân gynlluniau wedi eu cwblhau i bob pwrpas erbyn diwedd y flwyddyn. |
| **Adfywio** | **5,768** | **(639)** | **5,129** | **5,332** | **103** | |
| Datblygu Economaidd – Isadeiledd Strategol – Safleoedd ac Eiddo | 300 | 150 | 450 | 235 | 52 | Mae gwaith adeiladu'r 4 uned ym Mhen yr Orsedd bellach yn mynd rhagddo a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau yr haf hwn. Cyflwynwyd bid ar gyfer cyllid Ewropeaidd ychwanegol i gynyddu ei faint i 7 uned a disgwylir y canlyniad yn y dyfodol agos. |
| Datblygu Economaidd : Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn (estyniad) | 80 | 0 | 80 | 89 | 111 | Fel y dywedwyd yn adran 1.5.4, cafwyd cyllid Ewropeaidd ychwanegol ac mae'r gwaith bellach wedi cychwyn. |
| Datblygu Economaidd: Arall | 282 | 795 | 1,077 | 356 | 33 | Mae hwn yn ymwneud yn bennaf â chyllid cyfatebol ac arian wrth gefn ar gyfer cyllido partneriaethau ac mae'r ddau wedi cael eu clustnodi/ymrwymo bron yn gyfangwbl. |
| Eiddo : Rhaglen Wella'r Mân-ddaliadau | 221 | (1,590) | (1,369) | 683 | (50) | Bellach, cwblhawyd y bedwaredd flwyddyn o'r rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau (wedi ei gyllido o'r derbyniadau cyfalaf a glustnodwyd yn benodol i'r pwrpas hwnnw yn dilyn gwerthu mân-ddaliadau). Adolygwyd a diwygiwyd y rhaglen waith yn ystod y flwyddyn er mwyn canolbwyntio ar waith blaenoriaeth uchel. Roedd hynny oherwydd y dirwasgiad yn y farchnad oedd yn golygu bod y gwariant wedi bod yn uwch na'r derbyniadau cyfalaf a gafwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'r rhaglen yn parhau i fod ar y blaen i'r derbyniadau cyfalaf ac ar 31 Mawrth 2014, roedd diffyg o £2,051k. Yn y cyfarfod o'r pwyllgor hwn ym mis Chwefror, gofynnwyd am adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol ar y rhaglen wella a'r modd yr oeddid yn rhoi sylw i'r diffyg. Cyflwynwyd yr adroddiad hwnnw i'r pwyllgor hwn ym mis Mawrth. Rhagwelir y bydd y newidiadau i'r rhaglen a gwerthu mân-ddaliadau yn golygu fod y rhaglen yn dychwelyd i sefyllfa ariannol gytbwys/gwarged yn ystod y flwyddyn nesaf. |
| Rheoli Gwastraff : Safle Mwynderau Sifig - Penhesgyn | 0 | 6 | 6 | 295 | 4916 | Canolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig (CAGD) Penhesgyn. Fel yr adroddwyd eisoes, cwblhawyd y gwaith ar safle'r CAGD ac fe'i hagorwyd ym mis Gorffennaf. Fel yr adroddwyd eisoes hefyd, codwyd y gyllideb gychwynnol o £850k i £1m fel bod modd gwneud gwaith gwella ychwanegol. Bu'n rhaid gwario ychwaneg o arian yn ystod Chwarter 2 eleni gan golygu gorwariant o £0.3m ar y gyllideb o £1m. Gellir priodoli rhan o'r gorwariant i'r dyluniadau/cynlluniau cychwynnol ac mae'r gwasanaeth wrthi'n ymchwilio i opsiynau i leihau'r gost derfynol i'r Awdurdod. Comisiynwyd gwaith ychwanegol hefyd, sef adeiladu slab ychwanegol ar gyfer storio gwastraff gwyrdd a gwaith concritio pellach ar gyfer y ffyrdd mynediad a pharcio. Cafodd y gorwariant ei gyllido o arian wrth gefn y gwasanaeth. |
| Cynllunio: Adfywio Ffisegol (3 Tref) | 2,000 | 0 | 2,000 | 830 | 42 | Roedd y Cynllun Adfywio'r Tair Tref (Adnewyddiad Ffisegol) wedi'i gwblhau i bob pwrpas erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd rhan helaeth o'r gyllideb yn gysylltiedig â phrosiectau Menter Treftadaeth Treflun Caergybi a rhoddi grantiau i berchenogion eiddo preifat i adnewyddu eiddo masnachol a fflatiau ar ail lawr yng nghanol y dref. Roedd y cyfan o'r grant a oedd ar gael wedi ei gynnig erbyn diwedd y flwyddyn a disgwylir i'r gwaith gael ei wneud ac i'r arian gael ei hawlio erbyn diwedd 2014. |
| Priffyrdd : Menter Benthyca Llywodraeth Leol 2013/14 | 1,800 | 0 | 1,800 | 1,785 | 99 | Mae ail flwyddyn y Cynllun tair mlynedd Menter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Priffyrdd bellach wedi'i chwblhau. Bydd cyfanswm o £5.3m wedi cael ei fuddsoddi gan olygu y bydd asedau priffyrdd yr Awdurdod yn fwy ymarferol ac mewn cyflwr gwell. Hyd yma, mae'r gwaith wedi glynu wrth yr amserlen ac wedi cydymffurfio gyda'r cynlluniau a'r achosion busnes a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. |
| Priffyrdd : Grant Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol 2013/14 | 663 | 0 | 663 | 621 | 94 | Cwblhawyd y gwaith yn unol â'r bwriad a chafwyd rhai arbedion cost gan fod rhai o'r amcangyfrifon cychwynnol yn uwch na'r swm gofynnol. |
| Priffyrdd : Grant Llwybrau Diogel yng Nghymunedau 2013/14 | 422 | 0 | 442 | 438 | 103 | Cyflawnwyd amcanion y cynllun, gyda gorwariant oherwydd cymhlethdodau gyda'r cynllun, e.e. prynu tir. |
| **Arall** | **5,598** | **1,021** | **6,619** | **5,450** | **82** | |
| Priffyrdd: Arall | 775 | 188 | 963 | 585 | 61 | Mae chwarter y gyllideb hon yn ymwneud â'r gyllideb ar gyfer cerbydau; mae'r gwaith o werthuso opsiynau bellach wedi'i gwblhau a chaffael yn mynd rhagddo ac mae'r rhan fwyaf o'r llithriad yn gysylltiedig â'r gyllideb ar gyfer cerbydau. |
| Eiddo: Arall | 724 | 322 | 1,046 | 593 | 57 | Mae'r gyllideb hon yn ymwneud â nifer o fân gynlluniau gan gynnwys rheoli risg adeiladu, mynediad i'r anabl, doc pysgod Caergybi a mynwent Llanbedrgoch. Disgwylir y bydd y cyllidebau hyn yn cael eu gwario yn 2014/15. |
| Hawliadau Cyflog Cyfartal 2013/14 | 3,300 | 0 | 3,300 | 3,300 | 100 | Mae'n ymwneud â'r hawliadau cyflog cyfartal a gafwyd yn 2013/14 ac y cafwyd cyfarwyddyd cyfalafu gan LIC yn ei gylch. |
| Cynlluniau Adrannol Arall | 799 | 511 | 1,310 | 972 | 74 | Y rhan fwyaf o'r gyllideb hon yn gyllidebau TGCh, gan gynnwys arian wrth gefn ar gyfer anghenion yn y dyfodol. |
| **Cyfanswm** | **25,191** | **3,621** | **28,812** | **24,105** | **84** | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **9 MEHEFIN 2014** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB REFENIW 2013/14 – ALLDRO DROS DRO** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNG. H. E. JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **RICHARD G JONES**<br>**x2604**<br>**rgjfi** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae gwariant yn erbyn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol wedi ei fonitro trwy gydol y flwyddyn a'i adrodd i Aelodau'n chwarterol. Mae'r adroddiadau hyn wedi cynnwys manylion am y sefyllfa hyd yn hyn a rhagamcanion i ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r cyfrifon am 2013/14 yn awr yn cael eu cwblhau a'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi syniad o'r sefyllfa derfynol ar wariant refeniw yng Nghronfa'r Cyngor, er y dylid nodi bod y ffigyrau yn parhau i fod yn rhai dros dro ar hyn o bryd.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Caniatáu i'r Pwyllgor Gwaith fod yn gyfrifol am fonitro'r gyllideb ar lefel gorfforaethol.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Gosodwyd cyllideb net refeniw am 2013/14 fel £129m. Cyflwynwyd y rhagamcanion diwedd blwyddyn diweddaraf yn Adroddiadau Monitro Chwarter 3 i'r Pwyllgor Gwaith ar 10 Chwefror 2014. Nodwyd yn rhain byddai gorwariant rhagamcanedig o £474k.

Bellach dangosir y sefyllfa ganlyniad dros dro tanwariant gwasanaeth o £846k, sy'n cynrychioli cyfanswm newid o £1.3m o'r sefyllfa Chwarter 3. Y prif reswm am y newid yw addasiadau yn nhriniaeth cyfrifyddu a wnaed i sicrhau fod y Cyngor yn cadw'n gyfredol ag anghenion cyfrifyddu technegol ac, i raddau llai, mae'n ymwneud ag addasiadau'n llifo o'r flwyddyn gyntaf o'r system lejer newydd. Yn ychwanegol i hyn mae nifer o symudiadau ar draws yr holl benawdau sydd, gyda'i gilydd, wedi cynhyrchu'r gweddill o'r newid.

Mae dal angen penderfyniadau gan y Prif Swyddog Cyllidol ynglyn â chynyddiadau posibl yn narpariaethau. Y prif ddarpariaeth yw Safle Gwastraff Penhesgyn. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth dyledion drwg wedi gweld newid y flwyddyn yma er mwyn cwrdd â'r driniaeth cyfrifyddu angenrheidiol.

Ymgymerwyd adolygiad o falansau yn y chwarter olaf cyfrifyddu. Canlyniad yr adolygiad yma oedd nid oedd bellach angen ad-dalu £636k i gychwynnwr y grantiau, gan olygu fod y symiau a ddalwyd yn yr arian wrth gefn wedi eu rhyddhau i'r cyfrifon refeniw.

Dangosir llinellau gwasanaeth unigol yn Atodiad A. Pwysleisir eto mai dros dro yw'r ffigyrau a felly byddent yn parhau hyd nes byddent yn cael eu cwblhau. Mae angen cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon i gael ei archwilio cyn diwedd Mehefin a cwblheir yr archwiliad a chymeradwyo'r cyfrifon cyn diwedd Medi.

| D – | A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|---|

Canlyniad dros dro Cronfa'r Cyngor (ag eithro y CRT) ar gyfer 2013/14 yw tanwariant o £846k. Fodd bynnag, ar hyn o bryd efallai bydd addasiadau technegol yn y ffigwr yma yn ymwneud â chynyddiadau yn narpariaethau. Dangosir y CRT gwarged o £1.416m.

Tu hwnt i hyn, mae patrwm cyson o berfformiad cyllidol yn well na'r disgwyl ar draws y rhan fwyaf o'r gwasanaethau. Adlewyrchir hyn yn rhannol y pwyll cymharol wrth wneud y blaenamcanu diwedd blwyddyn flaenorol ond dangosir hefyd ganlyniadau'r ymdrechion sydd wedi eu gwneud, ar draws misoedd cau'r flwyddyn, i gyfyngu gwariant yn gyffredinol.

Ni fyddwn yn gwybod beth fydd yr effaith ar arian wrth gefn cyffredinol hyd nes gwneid penderfyniadau pellach ynglyn â neilltuadau i arian wrth gefn gwasanaeth a phenodol a'r ddarpariaeth sydd eu hangen. Y tu hwnt i hyn, ni ellir roi cadarnhad terfynol hyd nes cwblheir yr archwiliad a cymeradwyir y cyfrifon. Serch hynny, mae'n debygol y dangosir y sefyllfa ganlyniad terfynol fod gwelliant yn sefyllfa ariannol sylfaenol y Cyngor ac yn caniatau ar gyfer mwy o hyblygrwydd yn rheoli trawsnewid gwasanaethau a graddoli gostyngiadau gwariant.

| DD – | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E –** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 : Ystyriaethau
Atodiad A: Ffigyrau Canlyniad Perfformiad Ariannol 2013/14

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

**RICHARD G JONES**
**CYFRIFYDD PROSIECT** **22 MAI 2014**

## YSTYRIAETHAU

Gwneir sylwadau fel a ganlyn yng nghyswllt meysydd gwasanaeth unigol. Nodwch os gwelwch yn dda, bod meysydd gwasanaeth unigol yn ffigyrau gros sy'n cynnwys yr addasiadau yn sgil darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac addasiadau grant.

### Addysg

Mae tanwariant net ar Addysg Ganolog o £118k. O fewn y Gwasanaeth mae nifer o feysydd sydd wedi gorwario tra bo meysydd gwasanaeth eraill o dan y gyllideb. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:-

<u>Cludiant Disgyblion</u>

Roedd cost cludo disgyblion i ysgolion a cholegau £177k yn uwch na'r gyllideb ac yn cynnwys yr holl sectorau h.y. Cynradd, Uwchradd, Arbennig yn ogystal â sefydliadau Addysg Bellach.

<u>Prydau Ysgolion Cyfunol</u>

Gorwariant o £172k ac roedd hyn i'w briodoli yn rhannol i fwy o ddisgyblion yn cymryd prydau ysgol am ddim. Roedd incwm a gafwyd o brydau ysgol yn yr ysgolion cynradd wedi tangyflawni yn erbyn targed y gyllideb.

<u>Gweinyddu Addysg Ganolog</u>

Roedd y gyllideb wedi gorwario gan £126k. Mae'r gorwariant wedi ei rannu dros nifer o feysydd, yn cynnwys cyflenwadau a gwasanaethau, ond y mae wedi ei wrthbwyso drwy danwariant ar gostau ynni a thrwy ennill mwy o incwm / cyfraniadau nag a ragwelwyd.

<u>Cynnal</u>

Gorwariant o £135k - hyn yn bennaf o ganlyniad i gostau na chyllidebwyd ar eu cyfer mewn perthynas â chytundeb lefel gwasanaeth gyda Cynnal - roedd y gwasanaeth yn cynnwys cefnogaeth TG, cefnogaeth Cwricwlwm a rheolaeth weinyddol.

<u>Canolog Arall</u>

Roedd tanwariant o £92k yn y gyllideb rheoli perfformiad i'w briodoli yn rhannol i danwario ar gostau contract. Hefyd, roedd y gyllideb hyfforddiant gartref a salwch yn dangos tanwariant o £96k yn bennaf oherwydd tanwariant ar staffio. Yn ogystal, roedd tanwariant llai ar 'Blas am Oes' o £24k.

### Priffyrdd a Chludiant

Mae'r Gwasanaeth yn dangos gorwariant net o £208k. Mae'r prif wahaniaethau fel a ganlyn:-

<u>Cyllideb gweithiau (Traffig, Goleuo a Chynnal a Chadw)</u>

Gorwariant cyfun o £198k. Hyn i'w briodoli'n bennaf i'r angen i ymateb i waith ychwanegol mewn argyfwng yn ystod cyfnod y gaeaf.

<u>Rheoli Datblygu</u>

Tanwariant o £82k. Hyn yn bennaf o ganlyniad i fethu denu'r incwm oedd wedi ei gyllidebu.

<u>Arall</u>

Patrôl croesi ysgol yn dangos tanwariant o £24k. Hyn yn bennaf o'r herwydd nifer sylweddol o swyddi croeswyr ysgolion yn parhau yn wag yn ystod y flwyddyn. Roedd incwm meysydd parcio £36k o dan y gyllideb. Hyn oherwydd cyfuniad o lai o wariant ar daliadau contract ac incwm ychwanegol oedd yn uwch na'r gyllideb.

### Gofal Cymdeithasol

Sefyllfa canlyniad Gofal Cymdeithasol yw gorwariant o £180k.

<u>Gwasanaethau i'r Henoed</u>

Mae'r maes hwn yn dangos tanwariant o £230k. Hyn yn rhannol oherwydd swyddi gwag yn y Gwasanaeth, sef £84k. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweld lleihad mewn gwariant o ganlyniad i strategaeth i symud i ffwrdd o ofal preswyl i ofal cartref.

Anabledd Dysgu
Mae'r maes hwn yn dangos gorwariant o £124k. Hyn yn bennaf oherwydd galw na ragwelwyd am leoliadau oedolion mewn gofal preswyl.

Anabledd Corfforol
Mae'r rhain yn dangos tanwariant gwasanaeth o £90k. Hyn yn bennaf o ganlyniad i'r meini prawf cymhwyster llymach ar gyfer addasu'r cartref.

Iechyd Meddwl
Mae'n dangos gorwariant o £275k o ganlyniad i gyfuniad o faterion yn ymwneud â cyfuniad o bwysau cyllidebol mewn perthynas â gofal preswyl.

Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc
Mae'r Gwasanaeth yn dangos tanwariant net o £216k, gan gynnwys tanwariant o £99k yn y gefnogaeth i Deuluoedd. Yr un modd, mae'r gyllideb ar gyfer Plant ag Anabledd yn tanwario gan £73k. Fodd bynnag, mae gorwariant mewn rhannau eraill o'r gyllideb; mae hyn yn cynnwys gorwariant o £32k ar gostau cyfreithiol a £106k ar leoliadau allsirol.

**Dirprwy Brif Weithredwr**

TGCh
Tanwariant o £167k. Mae'r rhan fwyaf ohono'n ymwneud â chyllideb staffio yn tanwario o ganlyniad i swyddi gwag.

Cyfreithiol a Gweinyddu
Tanwariant o £174k o ganlyniad i gyfuniad o elfennau gwasanaeth amrywiol o fewn y gyllideb. Tanwariant o £42k yn y Gwasanaethau Pwyllgor. Gwasanaethau Cyfreithiol yn tanwario ar staffio oherwydd bod swydd cyfreithiwr yn wag. Y tanwariant net ar staffio, ar ôl cymryd costau staff asiantaeth a'r CLG i ystyriaeth, yw £44k.

**Tai – heb fod yn CRT**
Mae'r Gwasanaeth hwn yn dangos tanwariant net o £248k. O fewn y Gwasanaeth gwnaed darpariaeth ychwanegol o £161k ar gyfer dyledion drwg. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth wedi derbyn enillion o £610k yn ymwneud ag arian grant wrth gefn sydd wedi ei ryddhau o'r arian wrth gefn.

**Tai – CRT**

Y gyllideb net CRT am y flwyddyn oedd gwarged o £488k gyda chanlyniad o warged o £1.416m.

Y prif resymau oedd :-

**i)** Roedd y galw ar gyfraniadau refeniw gan y rhaglen gyfalaf yn £1.2m yn llai na'r disgwyl;
**ii)** Roedd derbyniadau rent yn fywiog a pherfformwyd £500k yn well na'r disgwyl;
**iii)** Cafwyd costau £300k yn uwch na'r disgwyl ar weithredu system gyfrifiadur newydd;
**iv)** Roedd uwchraddio lifftiau, larymau tân a chyfleusterau carthffosiaeth yn £200k yn uwch na'r disgwyl; a
**v)** Roedd atgyweiriadau a cynnal a chadw refeniw yn £200k yn uwch na'r disgwyl.

**ATODIAD/APPENDIX A**

## CANLYNIAD PERFFORMIAD ARIANNOL 2013/14

| Cyfadran | | Canlyniad 2013/14 £'000 | Cyllideb am y Flwyddyn £'000 | Amrywiad am y Flwyddyn £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg Gydol Oes** | | | | |
| Cyllidebau a Ddirprwywyd i Ysgolion | | 43,354 | 43,354 | 0 |
| Addysg Ganolog | | 7,986 | 8,104 | -118 |
| | | **51,340** | **51,458** | **-118** |
| **Cymunedau** | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | | 30,411 | 30,231 | 180 |
| Tai | | 1,043 | 1,291 | -248 |
| | | **31,454** | **31,522** | **-68** |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | |
| Datblygu Economaidd | | 1,428 | 1,602 | -174 |
| Arforol | | 300 | 259 | 41 |
| Priffyrdd | | 10,819 | 10,628 | 191 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | | 3,301 | 3,088 | 213 |
| Eiddo | | 565 | 561 | 4 |
| Gwaith y Codir Amdano | | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli Cyfadrannau | | 60 | 57 | 3 |
| Hamdden a Diwylliant | | 4,438 | 4,713 | -275 |
| Gwastraff | | 8,326 | 8,587 | -261 |
| | | **29,236** | **29,495** | **-258** |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | | 2,148 | 2,016 | 132 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 2,091 | 2,154 | -63 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | | 1,171 | 985 | 186 |
| Archwilio | | 2 | 0 | 2 |
| Cyllid – Ac Eithrio Budd-daliadau | | 891 | 966 | -75 |
| Cyllid – Budd-daliadau | | 5,415 | 5,313 | 102 |
| Adnoddau Dynol | | - 66 | 0 | -66 |
| TGCh | | -167 | 0 | -167 |
| Cyfreithiol a Gweinydduu | | 263 | 437 | -174 |
| Polisi | | 58 | 0 | 58 |
| Cyllid Corfforaethol | | 4,907 | 4,907 | 0 |
| | | **16,713** | **16,778** | **-65** |
| **CYFANSWM** | | **128,743** | **129,253** | **-510** |

| WEDI EI GYLLIDO GAN | | Canlyniad | Cyllideb am y Flwyddyn | Amrywiad am y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| Incwm o'r Dreth Gyngor | | 28,176 | 28,023 | -153 |
| Grant Arbennig | | 458 | 458 | 0 |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | | 726 | 545 | -181 |
| Grant Cymorth Refeniw | | 22,024 | 22,024 | 0 |
| Cronfa Genedlaethol ar gyfer Trethi Annomestig | | 78,203 | 78,203 | 0 |
| | | **129,587** | **129,253** | **-334** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **9 Mehefin 2014** |
| **Pwnc:** | **Rhesymeg ar gyfer cadw gwasanaethau mewnol ar gyfer gofal cartref a galluogi** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Kenneth P Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Carys Emyr Edwards (Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Sandra Thomas**<br>**Est. 2024**<br>**SandraLThomas@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amrywiol** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|

**Argymhelliad:**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnig bod y ddarpariaeth o wasanaethau gofal cartref yn cael ei rhannu ar y sail bod 70% o'r gwasanaethau'n cael ei ddarparu'n allanol a 30% yn cael ei ddarparu'n "fewnol". Mae hynny'n seiliedig ar y rhesymeg a ganlyn:

- Cyrraedd y sefyllfa hon erbyn 2017.
- Bydd y 30% mewnol yn cynnwys y ddarpariaeth ail-alluogi.
- Bydd y 30% yn cynnwys 20% ar gyfer ail-alluogi a 10% ar gyfer gofal cartref.
- Yr Adran i gadw capasiti i ddarparu gofal cartref dan yr amgylchiadau isod:
    - pan fo'r capasiti allanol i ddarparu yn isel iawn, er enghraifft ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd mewn ardaloedd daearyddol diarffordd;
    - pe bai darparwr allanol yn tynnu gwasanaethau yn ôl a lle nad oes darparwr allanol arall ar gael;
    - i sicrhau parhad gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr pan fônt yn trosglwyddo o'r gwasanaeth ail-alluogi;
    - i barhau i fod â rôl o ran siapio'r gweithlu gofal cymdeithasol a chynnal arbenigedd proffesiynol;
    - i ganiatáu ar gyfer cwrdd â'r newidiadau yng nghapasiti'r farchnad leol yn y dyfodol.
- Yr Adran i barhau i fonitro perfformiad a chyflawniad contractau gan yr holl ddarparwyr.
- Yr Adran i gynhyrchu Datganiad ar Sefyllfa'r Farchnad yn ystod 2014 er mwyn ailstrwythuro a hwyluso'r farchnad gofal cartref ar yr ynys.
- Bydd y gwasanaeth mewnol yn parhau i ganolbwyntio ar wasanaethau arbenigol fel y Gweithwyr Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Generig a'r Gweithwyr Dementia Arbenigol. Mae'r ddau wasanaeth hyn wedi eu cyllido'n allanol a disgwylir iddynt ehangu. Nid ydynt wedi eu cynnwys yn y rhaniad 70:30.

**Rhesymau:**

**1. Rhagarweiniad**

I sicrhau ystod ehangach a gwell o wasanaethau ar gyfer pobl hŷn bydd raid gwneud mwy o newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae'r ddogfen Bwriadau Gwasanaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn yn egluro y bydd ein defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwell ansawdd bywyd yn sgil mwy o ddewis o wasanaethau safon uchel ac oherwydd y bydd mwy o wasanaethau ar gael. Trwy drawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn, byddwn yn darparu gwasanaeth o ansawdd sy'n cwrdd ag anghenion i'r dyfodol, sy'n darparu gwerth am arian ac sy'n addas i'r pwrpas. Bydd hefyd yn rhoi cymorth i unigolion wneud dewisiadau gwybodus ynghylch eu hanghenion gofal eu hunain i'r dyfodol.

**2. Diogelu ansawdd a dewis i gleientiaid**

Mae'r holl ddarparwyr, p'un a ydynt yn ddarparwyr mewnol neu'n ddarparwyr allanol, yn cael eu harchwilio dan yr un drefn yn union gan yr Arolygiaeth (AGGCC). Mae'r AGGCC yn rheoleiddio pob agwedd ar ofal cymdeithasol gan ddefnyddio'r rheolau a'r safonau cenedlaethol sylfaenol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae Tîm Contractau'r Adran hefyd yn gwneud gwaith monitro cydymffurfiaeth â chontractau ac yn cadw llygad ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan yr holl ddarparwyr yn unol â'r gofynion yng Nghytundeb Fframwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru.

Disgwylir y dylai pob defnyddiwr gwasanaeth fedru dewis a rheoli eu gofal, gan gynnwys medru dewis pa ddarparwr gofal y dylid ei gomisiynu i gwrdd â'u hanghenion. Mae'n dilyn o hynny nad hawl y Cyngor yw gorfodi darparwr a ffefrir ar gyfer y defnyddiwr. Mae'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod y gall rôl yr awdurdod lleol newid o fod yn ddarparwr gwasanaethau i fod yn datblygu, annog a dylanwadu ar y farchnad o ran darparu gofal o ansawdd da. Ymhellach, ym mis Mawrth 2014 cyhoeddodd yr Asiantaeth Gwella becyn cymorth ar gyfer comisiynwyr gwasanaethau er mwyn cynorthwyo cynghorau i ymgymryd â'r gweithgareddau sydd raid wrthynt i ddatblygu gwasanaethau sy'n cwrdd orau ag anghenion y boblogaeth leol ac i sicrhau canlyniadau effeithiol yn awr ac i'r dyfodol.

Fel sy'n wir am yr holl holl awdurdodau yng Ngogledd Cymru, mae'r meini prawf ar gyfer derbyn gofal cymdeithasol a gyllidir gan y Cyngor wedi eu pennu ar gyfer pobl sydd ag anghenion sylweddol a chritigol yn unig. Nid yw'r unigolion hynny yr aseswyd bod ganddynt anghenion lefel isel neu gymedrol yn gymwys, ac felly bydd angen iddynt brynu eu cymorth eu hunain yn breifat gan ddarparwyr annibynnol. Efallai y bydd defnyddwyr gwasanaeth sy'n gymwys i dderbyn gofal cartref gan y Cyngor yn dymuno prynu cymorth i ychwanegu at wasanaethau y mae'r Cyngor yn talu amdanynt, e.e. cymorth ar gyfer gweithgareddau eraill fel siopa neu lanhau neu waith o gwmpas y cartref. Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod y farchnad breifat yn cynnig dewis o ddarparwyr i unigolion ac yn gwarantu gofal o ansawdd er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu bod mor annibynnol â phosib ac er mwyn lleihau unrhyw ymyrraeth i'r dyfodol.

**3. Rhan fewnol:allanol**

Ym Mawrth 2014 roedd y rhaniad yng Nghyngor Cyngor Sir Ynys Môn rhwng gofal cartref allanol a gofal cartref mewnol prif lif yn 55%:45%. Mae pedwar o'r pump o'r Cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru wedi allanoli o leiaf 70% o'u darpariaeth.

Yn ôl gwaith ymchwil a wnaed yn 2011 ar draws y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru, roedd y gost uned ar draws y chwe chyngor yn £25.14 yr awr ar gyfartaledd ar gyfer y gwasanaeth mewnol ac yn £15.86 yr awr ar gyfer y gwasanaeth allanol. Waeth faint o'r ddarpariaeth a allanolir, gallai pob cyngor gomisiynu gwasanaethau gofal cartref am gost uned is gan y sector annibynnol.

Roedd y gwaith ymchwil hefyd yn casglu mai mwyaf yn y byd oedd y swyddogaeth fewnol, isaf yn y byd oedd y gost uned fewnol, a hynny'n bennaf oherwydd effaith arbedion maint. Fodd bynnag, nid oedd hynny ond o'i gymharu â'r cynghorau eraill a oedd wedi allanoli mwy o'u darpariaeth.

Er mwyn i gynghorau gael y budd mwyaf o allanoli gwasanaethau gofal cartref daeth y gwaith ymchwil a wnaed yn 2011 i'r casgliad bod angen cymryd y pwyntiau isod i ystyriaeth:

- Nid yw'r cynnydd yn y gost uned fewnol ond yn dechrau bod yn gynnydd sylweddol pan fo'r swyddogaeth fewnol honno yn fychan, a hynny oherwydd colli pob mantais a ddeuai yn sgil arbedion maint. Roedd y data yn 2011 yn dangos y gall hynny ddigwydd pan fo'r ddarpariaeth fewnol yn llai na 27% o'r cyfanswm oriau.
- Mae'r manteision yn sgil allanoli ar raddfa fwy yn dibynnu ar drefniadau comisiynu cryf, rheoli contractau'n gadarn a monitro perfformiad darparwyr a sylfeini cost mewn modd rhagweithiol.

**4. Y cyfeiriad teithio hanesyddol, y sefyllfa gyfredol a chynnig ar gyfer y dyfodol**

Ar hyn o bryd mae'r darparwr mewnol yn cyflawni 100% o'r ddarpariaeth ail-alluogi ac ni chynigir unrhyw newid. Ymhellach, mae'r darparwr mewnol hefyd yn ehangu ei wasanaeth i ddarparu gweithwyr iechyd a chymdeithasol generig dan y Gronfa Gofal Canolraddol yn ogystal â Gweithwyr Cymorth Dementia Arbenigol. Mae'r ddau wasanaeth hyn yn ddatblygiadau newydd a gyllidir yn allanol ac y disgwylir iddynt ehangu yn y dyfodol agos.

**Tabl 1: Dadansoddiad o oriau gofal cartref tymor hir yn unig (heb gynnwys ail-alluogi)**

| Blwyddyn | Cyfanswm oriau a gomisiynir yn y flwyddyn/mis | % a ddarperir yn fewnol | % a ddarperir yn allanol | Sail |
|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 346,445 | 68% | 32% | Ffigyrau gwirioneddol |
| 2012/13 | 293,958 | 63% | 37% | Ffigyrau gwirioneddol |
| 2013/14 | 247,005 | 47% | 53% | Ffigyrau gwirioneddol |
| Mawrth 2014 yn unig | 20,527 | 45% | 55% | Ffigyrau gwirioneddol |
| *2014/15* | *247,000* | *40%* | *60%* | *Arfaethedig/Amcangyfrif* |
| *2015/16* | *I'w gadarnhau* | *30%* | *70%* | *Arfaethedig/Amcangyfrif* |
| *2016/17* | *I'w gadarnhau* | *20%* | *80%* | *Arfaethedig/Amcangyfrif* |
| *2017/18* | *I'w gadarnhau* | *10%* | *90%* | *Arfaethedig/Amcangyfrif* |

Mae'r gostyngiad yn y cyfanswm oriau a gomisiynwyd ers 2011/12 (Tabl 1) yn adlewyrchu'r newidiadau o ran darparu gwasanaethau gofal cartref, sef rhoi mwy o bwyslais ar ddatrysiadau cymunedol, mwy o ymyraethau wedi eu targedu, canolbwyntio ar ail-alluogi a thynhau meini prawf cymhwysedd.  Mae'n anodd ceisio rhagweld nifer yr oriau a allai gael eu comisiynu yn y tymor canol - fe allai'r cynnydd yn y galw gan boblogaeth sy'n heneiddio gael ei wrthbwyso'n rhannol gan y rhaglen bersonoleiddio.

Ym mis Tachwedd 2012, penderfynwyd comisiynu pecynnau gofal newydd yn allanol.  Ym mis Medi 2013, cyflwynwyd y swyddogaeth broceriaeth er mwyn mireinio'r drefn ar gyfer prynu pecynnau gofal cyfan.  Mae'r ddau ddatblygiad hyn wedi hwyluso'r symudiad i ffwrdd o ddarparu gwasanaethau gofal cartref yn fewnol tuag at ddarpariaeth allanol.

**5. Cymharu costau – y ddarpariaeth fewnol/allanol**

**Cost uned mewnol (amcangyfrifwyd rhwng £16.14 a £25 yr awr)**

Y gost uned yn fewnol ar gyfer gofal cartref yw o leiaf £16.14 yr awr fel y cyfrifwyd hynny gan yr Adran Gyllid.  Nid yw hyn ond yn cynnwys y costau hynny y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwasanaeth gofal cartref.  Nid yw'n cynnwys a) gorbenion gwasanaeth eraill e.e. cymorth busnes a rheoli perfformiad neu b) gorbenion corfforaethol fel mewnbwn Adnoddau Dynol, costau Cyllid, cymorth TG ac ati.  Ar ôl cynnwys y gorbenion hyn mae'n debygol y bydd y gost uned o gwmpas £20 - £25 yr awr.  Rydym yn gweithio gyda'r Adran Gyllid i wirio hyn.

Ymhellach, mae'r newid sydd ar y gweill i'r rheoliadau cyflogaeth yn golygu y bydd costau ychwanegol pan fydd angen i'r Cyngor dalu am yr amser y mae gofalwyr cartref mewnol yn ei dreulio yn teithio rhwng cartrefi'r pobl y maent yn gofalu amdanynt.

Cost uned Allanol (£14.50 yr awr)

Cytunwyd ar gost uned o £14.50 yr awr ar gyfer 2014/15 i ddarparwyr gofal cartref allanol. Mae'r gost uned hon yn cynnwys holl gostau'r darparwr gan gynnwys costau teithio, rheoli, gorbenion ac ati.

**6. Effaith ar y darparwr mewnol / strategaeth AD**

Nifer y gofalwyr cartref (cyfwerth ag amser llawn) ar hyn o bryd = 64.5

Nifer y gofalwyr cartref (cyfwerth ag amser llawn)  a ragwelir yn 2017 = 17

(Nodyn - nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y rheini sy'n gweithio yn y meysydd Ailalluogi, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, neu'r Gwasanaethau Dementia Arbenigol)

Mae'r papur hwn yn gofyn am gymeradwyaeth i barhau i allanoli'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gofal cartref prif lif (hynny yw, ar yr amod fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu am gyfnod mwy na 6 wythnos).  Fodd bynnag, bydd y gwasanaeth mewnol yn parhau i ganolbwyntio ar wasanaethau arbenigol sy'n cynnwys Ailalluogi, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Generig a Gwasanaethau Cymorth Dementia Arbenigol.

Bwriedir cynnal adolygiad llawn o'r polisi AD ond, ym marn y gwasanaeth, gellir rheoli'r newid i raniad 70:30 dros dair blynedd fel a ganlyn:

| |
|---|
| • cynnig cyfleon i drosglwyddo drosodd i'r gwasanaethau arbenigol wrth i'r gwasanaethau hynny ehangu<br>• ystyried adleoli pobl wrth i swyddi ddod yn wag mewn gwasanaethau eraill yn yr Adran<br>• peidio â chyflogi gweithwyr gofal cartref newydd pan fo pobl yn ymddeol neu'n gadael y gwasanaeth<br>• rheoli oriau dros ben mewn modd rhagweithiol<br>• ystyriaeth yn cael ei rhoi i TUPE throsglwyddo contractau i gwmnïau allanol<br>• ystyriaeth gael ei rhoi i ddiswyddiadau<br><br>Bydd y gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag Adnoddau Dynol a'r undebau i sicrhau y gwneir hyn yn unol â'r polisïau corfforaethol.<br><br>Bydd y gwasanaeth mewnol yn llunio strategaeth gweithlu yn ystod 2014 a fydd yn rhoi sylw ffurfiol i'r gostyngiad yn nifer yr oriau gofal cartref a gontractir. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae nifer o opsiynau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth gofal cartref mewnol wedi cael eu hystyried yn fanwl. Mae'r sylfaen tystiolaeth genedlaethol yn cefnogi ein casgliadau mai economi gymysg o ofal yw'r ffordd ymlaen ar gyfer Ynys Môn. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Bydd y penderfyniad hwn yn golygu y gall Cyngor Sir Ynys Môn gynnal y ddarpariaeth o ofal a chwrdd â'r galw cynyddol yn y dyfodol am ofal cartref, gan wneud hynny yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol. Bydd yn ceisio gwneud hyn trwy gomisiynu gwasanaethau gofal cartref cynaliadwy, o safon uchel ar draws y chwe ardal ddaearyddol ar yr ynys. Bydd y penderfyniad yn cael effaith ar nifer sylweddol o ddefnyddwyr y gwasanaeth, y darparwr mewnol, y darparwyr yn y sector annibynnol (wyth ar hyn o bryd), staff y Cyngor a'r farchnad gyflogaeth leol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r awdurdod wedi nodi ei ymrwymiad i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl, yn unol â'r angen a nodwyd, gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r cynnig hwn yn gyson â'r egwyddor hon. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Byddai'r cynnig yn adnabod arbedion refeniw ar gyfer yr awdurdod. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | ✓ |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | ✓<br>Adnoddau Dynol wedi gofyn am gynllun gweithredu manwl ar gyfer ymgynghori â staff ac undebau. |
| **5** | **Eiddo** | Dim yn berthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dim yn berthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Asiantaethau gofal cartref yn y sector annibynnol |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Penderfyniad Portffolio ar Restr o Gyfraddau ar gyfer Gofal Cartref – 30/04/14 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **9 Mehefin 2014** |
| **Pwnc:** | **Opsiynau mewn perthynas â sicrhau gwelliannau i'r A5025 i hwyluso cynigion datblygu Pwer Niwclear Horizon** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Richard Dew** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dewi R Williams, Pennaeth Gwasanaeth (Amgylcheddol a Thechnegol)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Arwel R Roberts**<br>**Est. 2311**<br>**arrht@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorwyr Richard Owain Jones, Aled Morris Jones, Wil Hughes, John Griffith, Kenneth P Hughes, Llinos Medi Huws, Gwilym O Jones a Richard Dew** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1 Argymhellion**

1.1 I nodi'r trafodaethau a gafwyd hyd yn hyn gyda Pŵer Niwclear Horizon (HNP) mewn perthynas â gwaith adeiladu a gwella tebygol fydd ei angen i'r A5025 i hwyluso'r gwaith adeiladu a gweithredu'r orsaf pwer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa;

1.2 I awdurdodi Swyddogion i ddal ymlaen mewn trafodaethau gyda HNP i sefydlu'r agwedd fwyaf priodol tuag at sicrhau darparu'r gweithiau sydd eu hangen i'r A5025, yn cynnwys ymchwilio i weithio mewn partneriaeth â HNP a thrafod a llunio fframwaith y gall trefniant o'r fath fynd yn ei flaen o'i fewn.

1.3 Nodi y bydd unrhyw drefniant partneriaethol/cydweithio o dan 1.2 (uchod) yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith i'w ystyried cyn y bydd y Cyngor yn cymryd camau gweithredu.

**Rhesymau:-**

**2 Cyflwyniad**

2.1 Mae swyddogion wedi cael trafodaethau anffurfiol gyda HNP dros y 12 mis diwethaf ar nifer o faterion sy'n gysylltiedig â datblygu Wylfa Newydd. Mae rhan o'r trafodaethau hyn wedi bod yn gysylltiedig â bwriadau HNP i wneud / gyllido gwaith adeiladu a gwella i'r A5025 er mwyn hwyluso'r gwaith adeiladu a gweithredu'r orsaf bwer niwclear newydd.

2.2 Mae'r trafodaethau gyda Swyddogion wedi nodi nifer o faterion sydd angen ystyriaeth bellach yng nghyd-destun symud ymlaen gyda chaniatáu'r gwaith sydd ei angen. Maent yn cynnwys dylunio, cynllunio, caffael, ymgynghori a phrynu tir.

2.3 Fe ddaeth yn eglur bod angen cael perthynas weithio agos gyda HNP. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar yr agwedd a fabwysiedir mewn perthynas â'r gwahanol faterion, fe all y berthynas honno gymryd un o nifer o ffurfiau yn cynnwys, o bosibl, trefniant partneriaeth rhwng y Cyngor a HNP.

2.4 Bwriad yr adroddiad hwn yw edrych ar hyn mewn mwy o fanylder a hefyd ceisio awdurdod i Swyddogion ymchwilio ymhellach i hyn gyda HNP.

**3 Cefndir**

3.1 Mae'n bwysig bod rôl y Cyngor mewn perthynas â'r gwaith i'r A5025 yn glir er mwyn darparu eglurder o safbwynt cyfrifoldebau'r Cyngor wrth symud ymlaen ac i sicrhau bod y broses o hyrwyddo'r gwaith yn cael ei wneud mewn dull priodol. Os na chaiff sefyllfa'r Cyngor ei egluro, bydd yn ei gwneud yn anodd iawn wrth symud ymlaen i'r Cyngor dynnu yn ôl o unrhyw safiad y bydd yn ei gymryd yn awr. Mae hefyd yn debygol o oedi materion os bydd angen ailymweld â rôl y Cyngor ran o'r ffordd trwy'r prosiect. Mae'n mynd i fod yn bwysig i HNP sicrhau bod y berthynas rhwng y Cyngor a HNP yn cael ei egluro fel y gall materion fynd yn eu blaenau yn ôl yr angen.

3.2 O ran rôl y Cyngor, oni bai y gwneir trefniant gwahanol, bydd y Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Cynllunio Lleol ac Awdurdod Priffyrdd Lleol, ac i bob pwrpas yn ymateb i unrhyw gais gan HNP yn y ffordd arferol. Fodd bynnag, fe all fod (ac mewn gwirionedd y mae'n fwy tebygol o fod) yn briodol i'r Cyngor helpu gyda hyrwyddo'r gwaith Priffyrdd, ac yn yr achos hwnnw mae angen trafod ac ystyried trefniant mwy ffurfiol all olygu trefniant partneriaeth ar y cyd neu ryw ymrwymiad arall ar ffurf cydweithio. Dyma'r trafodaethau y mae Swyddogion y Cyngor yn dymuno gweld cynnydd yn eu cylch.

**4 Materion**

4.1 Mae swyddogion yn deall bod HNP ag amserlen dynn o safbwynt caniatáu a darparu gwaith adeiladu a gwella'r A5025. Yn wir mae HNP wedi nodi y gall cais cynllunio gael ei gyflwyno mor fuan â gwanwyn 2005. Felly mae angen rhoi strategaeth glir yn ei lle yn awr i sicrhau bod proses ganiatáu a darparu'r gwaith hwn yn symud ymlaen.

4.2 Ffordd Sirol yw'r A5025 ac felly y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol sy'n gyfrifol am y ffordd ac am ei rheoli. Byddai unrhyw waith i wella neu i adeiladu'r A5025 yn cael ei wneud gan y Cyngor fel arfer. Lle bo gwaith adeiladu a gwella'r briffordd yn cael ei ariannu gan ddatblygwr preifat rhaid i waith o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Cyngor gyda threfniadau llym yn cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau eu bod yn cael eu darparu a'u cwblhau yn unol â

gofynion y Cyngor. Byddai rôl y Cyngor gyda dylunio a gweithredu'r gwaith yn hanfodol.

4.3 Fel ag y mae pethau'n sefyll, tra bod y Cyngor wedi cael rhai trafodaethau mewn perthynas â dyluniad y gwaith, nid yw wedi bod â rhan ar y lefel a ystyrir yn angenrheidiol i ddeall beth a fwriedir neu sydd ei angen i'r A5025 ac nid yw chwaith yn glir ynglyn â lle yn union y mae materion wedi cyrraedd yn fewnol gyda HNP. Mae'n amlwg bod deall dyluniad yn allweddol a bydd angen i'r Cyngor gael rôl glir mewn perthynas â hyn. Deellir bod peth o'r gwaith angen ei wneud o fewn ffin bresennol y briffordd, ond nid yw'n glir beth yw maint y gwaith hwn a faint o'r gwaith gwella/adeiladu a fwriedir sy'n disgyn o fewn tir nad yw ar hyn o bryd yn rhan o'r A5025. Mae'r ateb i hyn yn debygol o ddylanwadu'n rhannol ar y rôl y bydd y Cyngor yn ei chymryd.

4.4 Mae cynllunio hefyd yn fater. Mae ffactorau fel sgôp y cais a'r agwedd tuag at hynny a sgôp y datganiad amgylcheddol angen eu setlo. Mae angen trafod ymhellach fwriadau HNP mewn perthynas â'r cais hwnnw a delio â gwelliannau ar-lein ac oddi ar lein. Mae hunaniaeth yr ymgeisydd (HNP neu CSYM neu'r ddau) hefyd yn ffactor berthnasol sydd angen ei hystyried. Fe all yn wir bod manteision ac anfanteision i'r ddau all ddylanwadu ar y math o drefniadau a roddir yn eu lle gyda HNP.

4.5 Mae ymgynghori yn fater allweddol a dylid gwneud hynny'n drefnus ac yn ofalus. Mae'n bwysig i'r Cyngor wybod pa rôl y bydd disgwyl iddo ei chwarae o fewn yr ymgynghori ac ai rôl o ymateb yn unig i'r cynllun a fydd neu a fydd yn weithredol yn hyrwyddo'r gwaith. Bydd yr agwedd tuag at ymgynghori i raddau helaeth yn cael ei lywodraethu gan y math o drefniant a wneir rhyngddo a HNP.

4.6 Un mater arall yw sefyllfa perchnogion tir a effeithir gan y cynigion. Mae HNP eisoes wedi nodi anghenraid i fynd ar y tir i wneud arolygon, ac y mae yn gwneud hynny gyda chytundeb y gwahanol berchnogion tir. Fodd bynnag, pe bai'n cael ei brofi bod angen i HNP gael mynediad, byddent angen dibynnu ar bwerau statudol CSYM. Ni allai'r pwerau hynny gael eu defnyddio yn wirioneddol ond yng nghyd-destun cynllun y byddai CSYM yn rhan ohono ac yn cydweithredu'n llawn ynddo. Mae'r raddfa o reolaeth fydd gan HNP dros y tir sydd ei angen i ddarparu'r gwaith priffyrdd ar yr A5025 hefyd yn ffactor. Os na fyddant â rheolaeth o'r holl dir sydd ei angen yna gellid gwneud trefniadau i ddarparu'r gwaith hwnnw yn amodol ar gynllunio ac ati. Fodd bynnag, os na fyddant yn rheoli'r holl dir, yna efallai y bydd yn rhaid ymarfer pwerau prynu gorfodol ac ni fyddai'n gallu ystyried defnyddio'r pwerau hynny a'u hymarfer wedi hynny oni fyddai'r gweithredu fel hyrwyddwr y cynllun.

4.7 Mae'n bwysig bod y materion hyn ac eraill yn cael eu hymchwilio'n llawn gyda HNP. Er bod trafodaethau eisoes wedi eu cynnal mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi cyrraedd pwynt lle mae'n rhaid i rai o'r materion hyn gael eu cadarnhau fel y gellir cymryd safiad mewn perthynas â'r agwedd fwyaf priodol. Os ystyrir mai cyd-hyrwyddo yw'r ffordd fwyaf priodol o symud y gwaith yn ei flaen yna rhaid rhoi ystyriaeth i'r sail y bydd y cyd-hyrwyddo hwnnw yn cael ei symud ymlaen gan gynnwys y telerau a'r cyfrifoldebau ar gyfer pob parti.

**5 Ystyriaethau**

5.1 Yr ystyriaeth allweddol yw pa berthynas y dylid ei mabwysiadu gyda HNP. Rhaid edrych ar yr amrywiol opsiynau a bydd hynny'n cynnwys HNP yn hyrwyddo cynigion ar ei ben ei hun, HNP yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor, HNP mewn partneriaeth gyda'r Cyngor neu, o bosibl, y Cyngor yn hyrwyddo'r gwaith ar ei ben ei hun. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu y byddai rhyw fath o berthynas bartneru o fantais i symud ymlaen gyda'r amrywiol ganiatadau sydd eu hangen ar gyfer y gwaith, ac mewn rhai achosion bydd gweithio mewn partneriaeth neu gydweithio agos yn hanfodol. Nid yw'n glir hyd yma pa ffurf y dylai hyn ei gymryd ac mae hyn angen ei ymchwilio ymhellach.

5.2 Un ystyriaeth bellach yw'r angen i'r Cyngor gael ei weld yn gweithredu'n deg, o fewn ei bwerau ac yn sicrhau y gall gymryd arno rôl fel hyrwyddwr tebygol, Awdurdod Cynllunio Lleol ac Awdurdod Priffyrdd Lleol. Bydd hyn yn dibynnu ar ffurf y berthynas a sefydlir gyda HNP a'r anghenraid i sicrhau bod yr amrywiol swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n briodol.

5.3 Mae angen hefyd sicrhau na fydd rôl y Cyngor yn cael ei weld, wrth iddo hyrwyddo gwaith ar yr A5025, fel pe tai'n rhag-farnu unrhyw gynigion datblygu ehangach gan HNP. Unwaith eto, bydd angen ystyried ac, os bydd angen, cofnodi beth yw safle'r Cyngor yn hyn o beth.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| Mae'r opsiynau'n dal i gael eu hadolygu. Fel a nodwyd uchod, mae arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd trefniadau partneru/cydweithio yn fanteisiol, ac o bosib yn hanfodol. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau fydd angen eu trafod ymhellach. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| Mae hwn yn fater sy'n ddyletswydd i'r Pwyllgor Gwaith. O ystyried y cyfnod amser y mae'r Cyngor yn ymwybodol sydd gan Horizon mewn golwg i hyrwyddo'r gwaith ar yr A5025, mae'n hanfodol bod y materion hyn yn cael eu trafod a'u cwblhau fel y gellir gwneud penderfyniad ynglyn â'r trefniadau rhwng y Cyngor a HNP i allu symud ymlaen gyda'r cynigion A5025. Bwriad yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i drafodaethau barhau rhwng HNP a'r Cyngor ar y sail hon, tra'n cydnabod y bydd unrhyw benderfyniad terfynol, yn cynnwys telerau unrhyw drefniant o'r fath, os ystyrir mai dyna'r ffordd fwyaf priodol ymlaen, yn dod gerbron y Pwyllgor Gwaith eto cyn bo hir. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae nifer o bolisïau/penderfyniadau sy'n berthnasol i ddatblygiad Ynys Ynni ac ni fyddai'r penderfyniad hwn yn mynd yn groes iddynt. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ni ddylai'r penderfyniad hwn gael unrhyw effaith ar gyllideb y Cyngor. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid** / **Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol** / **Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| Nodir y risgiau yn adran 5 (ystyriaethau). Mae risg na fydd y berthynas rhwng y Cyngor a HNP wedi ei diffinio'n briodol (neu wedi'i ddiffinio'n rhy hwyr) allai gael effaith andwyol. Byddai risgiau ychwanegol drwy i'r Cyngor beidio â chael ei weld yn gweithredu'n briodol yn ei rôl naill ai fel hyrwyddwr neu awdurdod cynllunio lleol neu awdurdod priffyrdd neu'n rhagfarnu cynigion datblygu ehangach HNP. Dylai trafod a cofnodi'r berthynas rhwng y Cyngor a HNP helpu i liniaru'r risgiau hyn. | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **9 Mehefin 2014** |
| **Pwnc:** | **Gostwng Oed Mynediad Ysgol Llanfairpwllgwyngyll.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dr Gwynne Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gareth Jones**<br>**01248 752947**<br>**dgjed@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Jim Evans**<br>**R Meirion Jones**<br>**Alun Wyn Mummery** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Derbyniwyd cais oddi wrth Corff Llywodraethu Ysgol Llanfairpwllgwyngyll i'r Awdurdod ystyried gostwng oed mynediad yr ysgol i dderbyn disgyblion yn rhan-amser o'r Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Mae Ysgol Llanfairpwllgwyngyll yn derbyn plant yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Mae'r ysgol yn un o 8 ysgol gynradd gyda'r polisi yma. Mae'r 40 ysgol gynradd arall yn derbyn plant yn rhan amser yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Mae proses pendant i hyn sef-

1. Darparu dogfen ymgynghorol.
2. Sicrhau ymgynghoriad eang i bawb sydd gyda diddordeb.
3. Darparu adroddiad ar yr ymgynghori ac yna argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith.
4. Os symud ar ostwng yr oed mynediad yna cyhoeddi rhybudd statudol gan gasglu gwrthwynebiadau.
5. Pwyllgor Gwaith i ystyried adroddiad ar y gwrthwynebiadau gan ddod i benderfyniad terfynol

Drwy'r broses bydd cydweithio agos gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd derbyn y cynnig yn ychwanegu at gostau staffio ond bydd derbyn plant meithrin ychwanegol yn cynyddu dyraniad yr ysgol.

| |
|---|
| Buasai'r ysgol yn lleoli'r plant oedran meithrin o fewn caban ar dir yr ysgol. Bydd angen trafodaethau gyda'r Cyngor Cymuned sydd berchen y caban ac yn gosod y caban i'r Cylch Meithrin lleol. Rhagwelir y bydd yr ysgol a'r cylch yn rhannu defnydd o'r caban.Bydd angen cytundeb ffurfiol gyda'r ysgol a'r cylch ar gyfrifoldebau amrywiol dros y caban.<br><br>I grynhoi mae Llywodraethwyr Ysgol Llanfairpwllgwyngyll wedi cyflwyno cais i ostwng oed mynediad yr ysgol. Argymhellir y dylid rhoi caniatad i gychwyn y drefn ymgynghori. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Yr opsiwn arall yw parhau gyda'r trefniadau presennol ond mae'r ysgol am symud tuag at polisi sydd wedi ei dderbyn yn y mwyafrif o'r ysgolion. Mae'r Awdurdod yn cefnogi'r opsiwn o ymgynghori ar y cais fel bod yr Awdurdod yn symud tuag at cysondeb mewn trefniadau derbyn ar draws ysgolion. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae newid ystod oedran ysgol yn "newidiad a reoleiddir" o fewn trefn ail strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, 006/2013. Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yw hyn ac mae angen iddynt gyhoeddi cynigion ar y newid gan ystyried yr ymatebion. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi,mae'r Awdurdod wedi dilyn y broses gyda ysgolion eraill dros y blynyddoedd diwethaf. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae cynnydd yn rhifau disgyblion unrhyw ysgol yn cael effaith uniongyrchol ar y fformiwla gyllidol yn y flwyddyn ariannol canlynol. Po mwayf y nfier disgyblion yna mae angen mwy o gyllid yn y llinellau datganoli cyllidol. Yn ychwanegol I ddisgyblion ychwanegol yn cynhyrchu mwy o gyllid bydd angen sicrhau cyflogaeth cymorthydd 0.4 sydd yn cynyddu'n fwy y gyllideb datganoledig. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylwadau. |
| 5 | **Eiddo** | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd– dim sylwadau |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Pennaeth Gwasanaeth Plant – dim sylw. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **Mehefin 9fed, 2014** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad ar gynyddu pris prydau ysgol** |
| **Deilydd/Deiliaid Portffolio:** | **Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif ffôn:<br>E-bost: | **Gwynne Jones**<br>**01248 752921**<br>**gxjed@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau**

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r prisiau prydau ysgol presennol ar draws Gogledd Cymru.

| **Awdurdod** | **Cynradd** | **Uwchradd** |
|---|---|---|
| Ynys Môn | £1.90 | £2.10 |
| Awdurdod 1 | £2.00 | £2.10 |
| Awdurdod 2 | £2.05 | £2.20 |
| Awdurdod 3 | £1.90 | £2.05 |
| Awdurdod 4 | £2.00 | £2.40 |
| Awdurdod 5 | £2.15 | £2.15 |

Mae'r gost ar Ynys Môn yn cymharu'n ffafriol gyda siroedd eraill ac yn cynrychioli gwerth da am arian. Nid yw'r pris presennol o £1.90 ar gyfer ysgolion cynradd wedi newid ers Medi 2012.

Tynnir sylw hefyd at y ffaith bod pedwar o awdurdodau Gogledd Cymru wedi naill ai gynyddu'r pris yn Ebrill 2014 neu eu bod yn ystyried cynyddu pris prydau ysgol o Fedi 2014; mae'r cynnydd hwn yn amrywio o 5c i 20c. Mae'r awdurdod arall wedi dynodi y bydd eu prisiau'n aros yn sefydlog am y flwyddyn nesaf.

Mae'r cytundeb prydau ysgol presennol yn nodi y bydd y gost i'r Cyngor Sir yn cael ei hadolygu'n flynyddol i adlewyrchu newidiadau yn y ddau fynegai prisiau a ganlyn - CHBS RPI [Bwyd ac arlwyo] a CDKQ RPIX [Costau Amrywiol a Rheoli]. Bydd y codiad disgwyliedig yn godiad cyffredinol o 2.5% a fydd yn arwain at gost gynyddol o 7c y pryd y disgybl i'r awdurdod. O ganlyniad, bydd y costau prydau ysgol misol yn codi oddeutu £3,000 y mis o fis Medi 2014.

Gyda golwg ar yr uchod, argymhellir y gweithredir cynnydd o 10c y pryd o fis Medi 2014 yn rhannol i wrthbwyso codiadau disgwyliedig mewn costau i'r awdurdod.

| B –Pa opsiynau eraill y bu i chi eu hystyried a pham y bu i chi eu gwrthod a /neu (d)dewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Yr opsiwn arall a ystyriwyd oedd peidio â newid cost prydau ysgol. Byddai hynny'n cynyddu'r pwysau ar y llinell gyllidebol sydd ar hyn o bryd mewn diffyg bychan. |

| C – Pam y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r penderfyniad i gynyddu cost PYD yn fater sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwaith ac aelodau eraill. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae hyn yn unol â barn y Cyngor y dylai costau adlewyrchu cost y gwasanaeth a ddarperir. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydyw |

| DD – Â phwy y bu i chi ymgynhori? | | Beth a ddywedwyd ganddynt? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS)** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol/ Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGaCh)** | |
| 7 | **Craffu/Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw liniaru (os yw’n berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Deilliannau** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim un. |

| **FF – Papurau Cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim un. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **Mehefin 9fed, 2014** |
| **Pwnc:** | **Cynnig i ddelio gyda diffyg cyllideb ysgol** |
| **Deiliad(Deiliaid) Portffolio:** | **Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Gwynne Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif ffôn:<br>E-bost: | **Gwynne Jones**<br>**01248 752921**<br>**gxjed@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau**

Pwrpas yr adroddiad yw i'r Pwyllgor gwaith gytuno i'r egwyddor o ddefnyddio arian wrth gefn i gefnogi cynllun adfer cyllidebol yn Ysgol Uwchradd Caergybi.

Mae'r cynnig yn cynnwys y defnydd cynlluniedig o arian wrth gefn Dysgu Gydol Oes i gefnogi cynllun adfer cyllidebol yr ysgol i'w weithredu dros gyfnod o 3 mlynedd. Bwriedir defnyddio cronfeydd arian wrth gefn penodol - £276k o arian wrth gefn Ôl -16 a £84k o arian wrth gefn Cynllun Wrth Gefn Penodol Ysgolion - i greu cronfa wrth gefn cyffredinol o £360k i gyd. Defnyddir yr arian wrth gefn hwn i gyfateb i unrhyw arbedion diwedd blwyddyn ariannol a wneir gan yr ysgol ar sail punt am bunt.

Cefndir i'r diffyg cyllidebol.
Cyflwynwyd dadansoddiad o ariannu Ysgolion Uwchradd i'r Fforwm Ysgolion ar 13eg Rhagfyr 2013. Dygodd yr adroddiad sylw at wahaniaeth mewn ariannu ol-16 ar gyfer Caergybi oherwydd i'r fformiwla ariannu ddiwygiedig, a gyflwynwyd yn 2011/12, arwain at ostyngiad sylweddol mewn cyllido yn ôl y disgybl yn Ysgol Uwchradd Caergybi ar gyfer rhai ol-16.
Roedd hynny'n golygu bod yr ysgol ers 2011/12 wedi ei thangyllido i bob pwrpas dros gyfnod o 3 blynedd. Mae graddau'r tangyllido hwn wedi ei gyfrifo i fod yn £360k.

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes a'r Swyddog Interim Adran 151, mae datrysiad wedi ei awgrymu i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddefnyddio'r arian wrth gefn fel yr amlinellwyd uchod.

Mae'r arian wrth gefn i'w ddefnyddio gan Ysgolion yn unig, gydag un wedi ei chyfyngu gan faterion ol-16. Bydd balans o £506k yn aros yn arian wrth gefn Cynllun Wrth Gefn Penodol Ysgolion a bydd yn aros wedi ei gyfyngu i'w ddefnyddio gan ysgolion yn unig.

Mae cyflwyno fformiwla ariannu newydd ar gyfer ariannu ol- 16 ar gyfer 2014-15 wedi mynd i'r afael â'r mater tangyllido.

| |
|---|
| Tynnir sylw'r Aelodau hefyd at y ffaith pe derbynnid yr egwyddor hon y bydd angen i'r Adran Dysgu Gydol Oes ysgrifennu i'r ysgol yn cadarnhau y bydd mynediad i'r arian wrth gefn yn unig wedi i unrhyw arbediad yn ystod y flwyddyn gael ei gadarnhau gan yr Adran Gyllid. Bydd angen hefyd i'r llythyr gynnwys cyfeiriad at y defnydd posibl o ddefnyddio pwerau ymyrraeth yr awdurdod pe na bai'r ysgol yn gallu cynhyrchu arbedion diwedd blwyddyn ariannol.<br><br>Yr argymhelliad yw i'r Pwyllgor Gwaith gytuno i ddefnyddio'r arian wrth gefn dros gyfnod o 3 blynedd i roi sylw i faterion ariannu hanesyddol yn Ysgol Uwchradd Caergybi. Mae'r arian wrth gefn i'w ddefnyddio i gyfateb i unrhyw arbedion diwedd blwyddyn ariannol a wneir gan yr ysgol ar sail punt am bunt. |

| **B – Pa opsiynau eraill y bu i chi eu hystyried a pham y bu i chi eu gwrthod a/neu (d)dewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Yr opsiwn arall a ystyriwyd oedd gwneud dim byd a gofyn i'r ysgol fynd i'r afael â'r diffyg dros gyfnod hwy o amser. Nid yw hynny fodd bynnag yn mynd i'r afael â'r tangyllido a adnabuwyd. |

| **C –Pam y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Nodwyd yn y Rheoliadau Ariannol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – Â phwy y bu i chi ymgynghori?** | | **Beth a ddywedwyd ganddynt?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS)** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / adran 151** (gorfodol) | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGaCh)** | |
| **7** | **Craffu/Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw liniaru (os yw'n berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Deilliant** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim un. |

| **FF – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim un. |

This page is intentionally left blank